



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Presgripsiynu gofal sylfaenol **Bwrdd Iechyd Cwm Taf**

**Cyhoeddwyd:** Medi 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 405A2013

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall unigol nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod yn adran 45 yn amlinellu'r drefn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti on perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, phan fo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Y tîm a ymgymerodd â'r gwaith oedd Elaine Matthews, Alun Griffiths, Katrina Febry a Malcolm Latham.

# Cynnwys

---

Mae rheolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar bresgripsiynu gofal sylfaenol wedi'i chefnogi gan weledigaeth strategol eglur ac arweiniad da. Gwnaed cynnydd da yn sicrhau arbedion ariannol o bresgripsiynu mwy rhesymegol, er bod lefelau uchel o bresgripsiynu o hyd ac mae lle i wella ansawdd presgripsiynu mewn meysydd allweddol.

---

## Adroddiad cryno

---

|            |   |
|------------|---|
| Cyflwyniad | 5 |
|------------|---|

---

|                   |   |
|-------------------|---|
| Prif ganfyddiadau | 6 |
|-------------------|---|

---

|              |   |
|--------------|---|
| Argymhellion | 9 |
|--------------|---|

---

## Adroddiad manwl

---

|                                       |    |
|---------------------------------------|----|
| <b>Trefniadau cynllunio strategol</b> | 10 |
|---------------------------------------|----|

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth a ddeallir yn dda ar gyfer rheoli meddyginiaethau sy'n ysgogi integreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'n monitro targed arbedion a chynlluniau gweithredu presgripsiynu gofal sylfaenol yn ofalus, er na ddylid caniatáu i'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig

---

|  |    |
|--|----|
| <b>Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd</b> | 20 |
|--|----|

Mae atebolrwydd rheolaethol dros reoli meddyginiaethau yn eglur a dylai targedu'r arferion lle ceir y gwariant mwyaf gynhyrchu mwy o enillion ar fuddsoddiad. Mae gan y Bwrdd Iechyd lyfr fformiwlâu sefydledig ac mae integreiddiad fferylliaeth sylfaenol ac eilaidd yn arwain at welliannau ar draws y rhyngwyneb

---

|   |    |
|---|----|
| <b>Cyflawni presgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus</b> | 30 |
|---|----|

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o wneud arbedion ariannol drwy bresgripsiynu'n fwy rhesymegol mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae lle i wneud arbedion ychwanegol ac i adolygu'n feirniadol y modd y caiff rhai cyffuriau penodol eu presgripsiynu fel rhan o ffocws mwy manwl ar faterion ansawdd a diogelwch

---

## Atodiadau

|  |    |
|--|----|
| Crynodeb o arbedion posibl   | 44 |
| Dadansoddiad cymharol o bresgripsiynu adrannau'r Llyfr Fformiwlâu<br>Cenedlaethol Prydain yn ôl bwrdd iechyd | 46 |
| Dadansoddiad o ddangosyddion presgripsiynu   | 48 |
| Lleihau adweithiau niweidiol i gyffuriau   | 67 |
| Rheoli gwastraff cyffuriau   | 70 |
| Canfyddiadau ymarfer dyddiadur y tîm presgripsiynu gofal sylfaenol   | 71 |
| Negeseuon allweddol Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop i bresgripsiynwyr<br>gofal sylfaenol               | 80 |

# Adroddiad cryno

---

## Cyflwyniad

1. Presgripsiynu cyffuriau yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar driniaeth mewn gofal sylfaenol ac mae'r GIG yng Nghymru yn rhoi tua 75 miliwn o bresgripsiynau gofal sylfaenol bob blwyddyn am feddyginiaeth sy'n costio tua £600 miliwn i gyd. Mae'r swm sy'n cael ei wario y pen o'r boblogaeth mewn gofal sylfaenol bob blwyddyn (£196) yn uwch na Lloegr (£169) a'r Alban (£168). Yn ogystal, nifer yr eitemau sy'n cael eu presgripsiynu y pen yng Nghymru bob blwyddyn yw'r uchaf yn y DU, sef 24 eitem, nifer sydd wedi codi o 15 yn 2002.
2. Yn gefndir i hyn mae galw cynyddol a chyfran gynyddol o oedolion dros 65 oed sydd fel rheol yn cael mwy o feddyginiaethau. Erbyn 2020, mae disgwyl i'r niferoedd godi 24 y cant. Hefyd, mae 82 y cant o'r grŵp oedran hwn â chyflwr cronig sy'n arwain at gyfraddau presgripsiynu uwch.
3. Mae disgwyliad oes y bobl y mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn eu gwasanaethu yn is na mewn ardaloedd eraill o Gymru, a gall y boblogaeth ddisgwyl cael hyd at chwe blynedd yn hwy o anabledd na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae rhagamcanion poblogaeth hefyd yn darogan cynnydd yn y grŵp oedran 75 oed a hŷn. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at gyfraddau presgripsiynu uwch ar gyfer meddyginiaethau at gyflyrau cronig fel clefydau cychredol ac anadlol.
4. Y Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau sy'n arwain y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau, ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Mae'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau wedi'i hintegreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd sy'n sicrhau manteision ar draws meysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd. Mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol y Bwrdd Iechyd yn rhoi cyngor ar bresgripsiynu yn uniongyrchol i bractisau meddygon teulu a dadansoddir data ategol yn ganolog gan Uned Ymarfer Rheoli Meddyginiaethau (UYRhM) y Bwrdd Iechyd.
5. Cynhaliwyd yr archwiliad annibynnol diwethaf drwy Gymru o bresgripsiynu gofal sylfaenol ym 1998, felly mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys adolygiad o bresgripsiynu gofal sylfaenol yn ei raglen waith archwilio lleol gyda byrddau iechyd yng Nghymru.
6. Edrychai'r archwiliad hwn ar ddull y Bwrdd Iechyd o reoli presgripsiynu gofal sylfaenol a cheisiodd ateb y cwestiwn: 'A yw dull y Bwrdd Iechyd o bresgripsiynu gofal sylfaenol yn ddiogel, yn effeithiol ac yn ddarbodus?' drwy edrych i weld:
  - a yw strategaeth a chynlluniau cyflawni presgripsiynu gofal sylfaenol yn cynnal trefn bresgripsiynu sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
  - a yw'r strwythurau, y trefniadau rheoli a'r adnoddau angenrheidiol yn eu lle mewn gofal sylfaenol ar draws y rhyngwyneb â gofal eilaidd, er mwyn sicrhau trefn bresgripsiynu sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
  - a yw data presgripsiynu a chanlyniadau ariannol yn dynodi bod dull y Bwrdd Iechyd yn arwain at bresgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus mewn gofal sylfaenol.

---

## Ein prif ganfyddiadau

7. Ein casgliad cyffredinol yw bod rheolaeth y Bwrdd Iechyd ar bresgripsiynu gofal sylfaenol wedi'i chefnogi gan weledigaeth strategol eglur ac arweiniad da. Gwnaed cynnydd da yn sicrhau arbedion ariannol o bresgripsiynu mwy rhesymegol, er bod lefelau uchel o bresgripsiynu o hyd ac mae lle i wella ansawdd presgripsiynu mewn meysydd allweddol.
8. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn.

### Trefniadau cynllunio strategol

**Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth a ddeallir yn dda ar gyfer rheoli meddyginiaethau sy'n ysgogi integreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'n monitro targed arbedion a chynlluniau gweithredu presgripsiynu gofal sylfaenol yn ofalus, er na ddylid caniatáu i'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig.**

- **Gosod y cyfeiriad strategol:** mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod gweledigaeth strategol eglur ar gyfer rheoli meddyginiaethau fel rhan o'i Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu a Materion Ariannol 2010-2015. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo integreiddiad trefniadau rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gefnogi gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd ynghylch symud y ddarpariaeth o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol yn unol â 'Gosod y Cyfeiriad'.
- **Defnydd o dystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** caiff y strategaeth ei llywio gan ddadansoddiad eglur o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad presgripsiynu, sy'n cydnabod bod lefelau presgripsiynu uchel y Bwrdd Iechyd i'w priodoli'n bennaf i ddemograffeg a lefelau amddifadedd. Mae hefyd yn cefnogi ac yn cydweddu â pholisïau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau, er nad oes dystiolaeth bod rhanddeiliaid allweddol fel meddygon teulu a chynrychiolwyr cleifion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
- **Dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar gynnydd hanesyddol y bil cyffuriau lleol, gan osgoi symud costau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae'n cynnwys model sefydledig ar gyfer cynllunio, monitro a darogan gwariant ar feddyginiaethau mewn perthynas â gofynion y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE).
- **Monitro canlyniadau a pherfformiad:** mae cynllun gweithredu blynyddol y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer 2012-13 yn cynnwys pedwar amcan sy'n bodloni meini prawf CAMPUS,<sup>1</sup> er na ddylid gadael i'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu'r sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig.

---

<sup>1</sup> Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

## Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

Mae atebolrwydd rheolaethol dros reoli meddyginiaethau yn eglur a dylai targedu'r arferion lle ceir y gwariant mwyaf gynhyrchu mwy o enillion ar fuddsoddiad. Mae gan y Bwrdd Iechyd Llyfr Fformiwlâu sefydledig ac mae integreiddiad fferylliaeth sylfaenol ac eilaidd yn arwain at welliannau ar draws y rhyngwyneb.

- **Trefniadau rheoli:** mae'r trefniadau atebolrwydd gweithredol, proffesiynol a rheolaethol dros reoli meddyginiaethau a phresgripsiynu gofal sylfaenol yn eglur ac mae integreiddiad staff rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd eisoes yn creu manteision yn holl feysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd.
- **Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol:** mae dau dîm cyngor presgripsiynu'r Bwrdd Iechyd yn treulio dros hanner eu hamser gyda phractisau meddygon teulu ac yn elwa o ddata sy'n cael ei ddadansoddi'n ganolog gan yr UYRhM. Ceir tystiolaeth o ddefnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau cyfyngedig ar ffurf cymorth cynghorydd fferyllol sy'n targedu'r practisau sy'n gwario fwyaf.
- **Llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd:** datblygwyd y llyfr fformiwlâu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac mae'n cael ei dderbyn a'i ddefnyddio'n eang gan feddygon teulu.
- **Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant (PRhMG):** mae PRhMG Cwm Taf yn gweithio'n glòs gyda Phwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg Bro Taf i roi sicrwydd bod y trefniadau rheoli meddyginiaethau yn sicrhau'r gofal gorau i gleifion, yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd.
- **Gweithio ar y rhyngwyneb:** gyda thros 30 o brotocolau rhannu gofal o ansawdd da ar waith, mae gan y Bwrdd Iechyd broses drylwyr a sefydledig o ddatblygu protocolau a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.

## Cyflawni presgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o wneud arbedion ariannol drwy bresgripsiynu'n fwy rhesymegol mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae lle i wneud arbedion ychwanegol ac i adolygu'n feirniadol y modd y caiff rhai cyffuriau penodol eu presgripsiynu fel rhan o ffocws mwy manwl ar faterion ansawdd a diogelwch.

- **Gosod y gyllideb a pherfformiad ariannol:** roedd targed arbedion presgripsiynu gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd o fwy na £1 miliwn yn 2012-13 yn realistig ac yn deillio o ddefnyddio data priodol ynglŷn â chostau hanesyddol a phwysau costau yn y dyfodol. Mae costau presgripsiynu wedi gostwng £2.3 miliwn o gymharu â 2011-12 sy'n dangos bod y ffocws ar leihau costau a lefelau presgripsiynu yn gweithio'n ymarferol.
- **Monitro ariannol:** mae'r Uned Ymarfer Rheoli Meddyginiaethau (UYRhM) yn cynhyrchu adroddiad 'fflach' misol sy'n cynnwys y mesuriadau sy'n berthnasol ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn gwariant, ansawdd a'r targed arbedion; mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda am fod gan yr UYRhM arbenigedd canolog i gynnal dadansoddiadau data helaeth a chaiff y mesuriadau rheoli meddyginiaethau eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl a chyfarfod busnes clinigol y Bwrdd Iechyd.

---

## Cyflawni presgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus

- **Cyfanswm y gwariant ar bresgripsiynu gofal sylfaenol:** gwariodd y Bwrdd Iechyd £53 miliwn ar gyffuriau gofal sylfaenol rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mai 2013, sef £128,649 am bob 1,000 o unedau presgripsiwn (UP),<sup>2</sup> sy'n golygu mai dyma'r gwariant uchaf ar gyffuriau gofal sylfaenol yng Nghymru; er bod lefelau uchel o amddifadedd yn egluro peth o'r gwariant uchel hwn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn hyderus nad oes ffactorau eraill o fewn eu rheolaeth yn cyfrannu ato.
- **Dangosyddion presgripsiynu effeithiol:** er bod gan y Bwrdd Iechyd gyfradd uchel o bresgripsiynu generig, mae potensial o hyd i gynhyrchu arbedion o tua £1.2 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion drwy gynyddu lefelau presgripsiynu generig, lleihau'r defnydd o baratodau llai addas ar gyfer presgripsiynu, a thrwy wella trefn presgripsiynu cyffuriau sydd wedi'u cynnwys yn y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol.
- **Presgripsiynu cynhyrchion rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd ac anymataliaeth:** mae lefelau presgripsiynu gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd ac atchwanegiadau bwyd y Bwrdd Iechyd yn uchel a lefelau presgripsiynu cynhyrchion anymataliaeth a stoma yn ganolig, sy'n tanlinellu'r angen i dargedu'r meysydd presgripsiynu hyn yn well.
- **Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol:** mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda iawn mewn rhai Dangosyddion (atalyddion ACE, atalyddion pwmp proton (PPI), ibuprofen a naproxen, inswlin hirdymor) ond yn wael mewn dangosyddion eraill (dosulepin, hypnotigion ac ancsiolytigau). Mae hyn yn adlewyrchu ffocws y Bwrdd Iechyd ar feysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol. Er bod hyn yn gadarnhaol o safbwynt ariannol, rhaid rhoi mwy o sylw i'r dangosyddion sy'n canolbwyntio mwy ar ansawdd lle nad yw'n perfformio crystal.
- **Cofnodi Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau:** lefel isel o gydymffurfiaeth â'r Cerdyn Melyn<sup>3</sup> ar gyfer cofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau sydd i'w weld yn y Bwrdd Iechyd. Mae wedi cydnabod hyn a bellach mae'n darparu hyfforddiant i feddygon teulu ac yn archwilio llwybrau electronig ar gyfer cofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac mae'n adolygu ei strategaeth diogelwch cleifion.
- **Gwastraffu cyffuriau:** mae gan y Bwrdd Iechyd brif fferylllydd sy'n cynhyrchu strategaeth ar gyfer crynhoi gwaith ar ymgyrchoedd i leihau'r arfer o wastraffu cyffuriau, cynlluniau cymhellant ym maes presgripsiynu amlroddadwy gyda fferyllwyr cymunedol a phractisau meddygon teulu, yn ogystal â chanolbwyntio ar y rhesymau pam nad yw cleifion yn cymryd eu meddyginiaethau fel y rhagnodwyd. Mae hon yn agwedd gadarnhaol a ddylai arwain at leihau gwastraffu cyffuriau.

---

<sup>2</sup> Mae unedau presgripsiynu yn rhoi ystyriaeth i angen mwy cleifion hŷn am feddyginiaethau.

<sup>3</sup> Caiff Cynllun y Cerdyn Melyn ei drefnu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol, a'i ddefnyddio i gasglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cyhoedd ar sgil-effeithiau neu adweithiau niweidiol a amheuir i feddyginiaeth.



---

## Argymhellion

### Trefniadau cynllunio strategol

- A1 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn gofal sylfaenol yn rhoi lle'r un mor flaenllaw i faterion ansawdd a diogelwch ag i gyfleoedd arbed arian.
- A2 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ymgysylltu ystyrion â chleifion a rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'r gwaith ar ddatblygu dull strategol o reoli meddyginiaethau.
- A3 Dylai'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau gyflwyno rhaglen hyfforddi i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ailgynllunio'r gwasanaeth.
- A4 Er mwyn deall y pwysau demograffig ar yr amgylchedd presgripsiynu, dylai'r Uned Ymarfer Rheoli Meddyginiaethau (UYRhM) ddatblygu trefniadau meincnodi gydag ardaloedd tebyg yn y DU, er enghraifft Gogledd-ddwyrain Lloegr.

### Strwythurau ac adnoddau

- A5 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant (PRhMG) yn cynnwys cynrychiolaeth gyson o randdeiliaid.
- A6 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r trefniadau ar gyfer cysoni meddyginiaethau er mwyn cyrraedd y targed o adolygu meddyginiaethau 90 y cant o gleifion yn ystod y 24 awr gyntaf ar ôl eu derbyn i'r ysbyty.

### Cyflawni presgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus

- A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull tymor canolig i hirdymor o sicrhau gwelliannau parhaol drwy raglenni addysg a thargedu cyngor presgripsiynu gan gynghorwyr i feddygon teulu er mwyn gwneud y canlynol:
  - i. gwella presgripsiynu opioidau;
  - ii. gwella presgripsiynu gwrthfotigau'n rhesymegol;
  - iii. cyfyngu ar bresgripsiynu dosulepin;
  - iv. cyfyngu ar bresgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau.

## Trefniadau cynllunio strategol

9. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth a ddeallir yn dda ar gyfer rheoli meddyginiaethau sy'n ysgogi integreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'n monitro targed arbedion a chynlluniau gweithredu presgripsiynu gofal sylfaenol yn ofalus, er na ddylid caniatáu i'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig:
- **Gosod y cyfeiriad strategol:** mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod gweledigaeth strategol eglur ar gyfer rheoli meddyginiaethau fel rhan o'i Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu a Materion Ariannol 2010-2015. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo integreiddiad trefniadau rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gefnogi gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd ynghylch symud y ddarpariaeth o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol yn unol â 'Gosod y Cyfeiriad'.
  - **Defnydd o dystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** caiff y strategaeth ei llywio gan ddadansoddiad eglur o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad presgripsiynu, sy'n cydnabod bod lefelau presgripsiynu uchel y Bwrdd Iechyd i'w priodoli'n bennaf i ddemograffeg a lefelau amddifadedd. Mae hefyd yn cefnogi ac yn cydweddu â pholisïau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau, er nad oes tystiolaeth bod rhanddeiliaid allweddol fel meddygon teulu a chynrychiolwyr cleifion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
  - **Dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar gynnydd hanesyddol y bil cyffuriau lleol, gan osgoi symud costau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae'n cynnwys model sefydledig ar gyfer cynllunio, monitro a darogan gwariant ar feddyginiaethau mewn perthynas â gofynion y NICE.
  - **Monitro canlyniadau a pherfformiad:** mae cynllun gweithredu blynyddol y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer 2012-13 yn cynnwys pedwar amcan sy'n bodloni meini prawf CAMPUS, er na ddylid gadael i'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu'r sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig.

10. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad.

| Gosod y cyfeiriad strategol   |   |   |
|---|---|---|
| Ymarfer disgwyliedig  | Ar waith?   | Gwybodaeth bellach  |
| <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth bresgripsiynu gyfredol dros gyfnod o amser wedi'i ddiffinio (er enghraifft, tair i bum mlynedd), a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i gefnogi cyflawniad ei nodau strategol â champau gweithredu wedi'u blaenoriaethu.</p> |  | <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth eglur ar gyfer rheoli meddyginiaethau wedi'i hintegreiddio drwy bob lleoliad gofal sylfaenol ac eilaidd. Mynegir y weledigaeth hirdymor yn Fframwaith y Gweithlu a Materion Ariannol y Gwasanaeth 2010-2015. Dyma brif nodau'r strategaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyrraedd targedau gwariant ariannol ar gyfer meddyginiaethau;</li> <li>• cydymffurfio ag agendâu diogelwch cleifion;</li> <li>• rheoli meddyginiaethau wrth drosglwyddo rhwng lleoliadau gofal;</li> <li>• ailgynllunio gwasanaeth ac agenda rheoli meddyginiaethau yn fodel integredig ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd;</li> <li>• cynnwys clinigwyr a chleifion yn yr agenda rheoli meddyginiaethau.</li> </ul> <p>Mae'r nodau hyn yn cefnogi gweledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd ynglŷn â symud gofal o leoliadau eilaidd i leoliadau sylfaenol a chymunedol fel y mynegwyd yn 'Gosod y Cyfeiriad'.</p> <p>Mae datganiad o weledigaeth y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau yn pwysleisio'r angen i wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau er mwyn sicrhau'r manteision gorau i gleifion gyda'r nod o fod yn rhagorol yn strategol ac yn weithredol. I gefnogi'r weledigaeth hon, ceir 'diagram sbardun' sy'n nodi cynllun gweithredu'r tîm rheoli meddyginiaethau sef, yn syml, lleihau gwariant ar feddyginiaethau. Yn sail i'r prif nod hwn, mae'r camau gweithredu canlynol a ddeillir yn dda gan y tîm rheoli meddyginiaethau a meddygon teulu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gostwng lefelau presgripsiynu;</li> <li>• lleihau costau uned;</li> <li>• cynyddu'r awydd i gyrraedd y nod.</li> </ul> <p>Mae'r heriau hyn yn briodol i'r Bwrdd Iechyd er na ddylai'r ffocws ar arbedion ariannol dynnu'r sylw oddi ar yr agenda ansawdd sydd yr un mor bwysig.</p> |

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth bresgripsiynu gyfredol dros gyfnod o amser wedi'i ddiffinio (er enghraifft, tair i bum mlynedd), a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i gefnogi cyflawniad ei nodau strategol â champau gweithredu wedi'u blaenoriaethu.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Mae'r cynllun gweithredu mwy manwl ar gyfer rheoli meddyginiaethau 2012-13 yn cynnwys pedwar maes ag arbedion costau ynghlwm wrthynt a chynllun i arbed £1.15 miliwn i gyd. Nodwyd y pedwar maes targed drwy feincnodi a chymharu data â sefydliadau gofal iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr, sy'n arfer da.

Mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio'n bennaf ar arbedion costau drwy newid i ddewisiadau rhatach a thrwy leihau nifer eitemau presgripsiwn. Er hynny, dylent hybu presgripsiynu o safon hefyd gan fod llawer o'r meddyginiaethau a dargedwyd wedi'u cynnwys yn y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a'r gofyniad i gyfyngu ar bresgripsiynu amhriodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cynllun cymhelliant ar gyfer presgripsiynu ond ychydig iawn o feddygon teulu sy'n rhan ohono ar hyn o bryd. Dywedodd meddygon teulu a roddodd y gorau i gymryd rhan nad oedd y budd ariannol yn werth yr ymdrech o gyflawni gofynion y cynllun. Mae'r tîm Rheoli Meddyginiaethau wedi gweld ei fod yn gallu gwella presgripsiynu drwy ddarparu cynghorwyr presgripsiynu yn uniongyrchol i gynorthwyo meddygon teulu. Mae hon yn ffordd dda o fynd ati ac yn deillio o waith hirdymor ar feithrin perthynas â meddygon teulu sy'n rhannu blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Dylid integreiddio dull strategol y Bwrdd Iechyd o bresgripsiynu gofal sylfaenol a gwaith rheoli meddyginiaethau gofal eilaidd. Yn niffyg strategaeth integredig, dylai strategaeth gofal sylfaenol gynnig dull sy'n gyson â'r hyn sy'n cyfateb iddo mewn gofal eilaidd.



Elfen allweddol o'r strategaeth rheoli meddyginiaethau yw ailgynllunio gwasanaeth ac agenda rheoli meddyginiaethau yn fodel integredig ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni'r integreiddiad sy'n dangos manteision i'r gwaith o gynllunio a darparu dull cyson o reoli meddyginiaethau yn holl feysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, bellach ceir system uniongyrchol ar gyfer cyfyngu ar y meddyginiaethau amhriodol a nodir mewn gofal sylfaenol sy'n cael eu presgripsiynu mewn gofal eilaidd. Llwyddodd y dull hwn o weithredu er enghraifft i gyfyngu'n sylweddol ar bresgripsiynu diclofenac.

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwyliedig

Dylai'r dull strategol gysylltu â nodau strategol eraill y Bwrdd Iechyd, er enghraifft ei Strategaeth Iechyd Cyhoeddus.

### Ar waith?




### Gwybodaeth bellach

Mae dull strategol y tîm rheoli meddyginiaethau yn cysylltu'n eglur â nodau eraill y Bwrdd Iechyd ym maes iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd. Dyma ddwy enghraifft sy'n dangos manteision y dull hwn o weithredu:

- Mae adran iechyd meddwl y Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu a Materion Ariannol yn nodi'r her a gynrychiolir gan gyfraddau uchel o bresgripsiynau gwrthiselyddion mewn gofal sylfaenol. Un o nodau strategol y Bwrdd Iechyd yw annog mwy o hunanofal ar gyfer iselder a fydd yn arwain at gyfyngu ar nifer presgripsiynau gwrth-iselyddion ac yn cyfeirio'r arbedion tuag at driniaethau amgen. I gefnogi'r nod hwn, mae'r tîm rheoli meddyginiaethau yn nodi'r angen i ostwng lefelau presgripsiynu gwrth-iselyddion mewn gofal sylfaenol.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau yn datblygu prosiectau ar y cyd ag iechyd cyhoeddus gyda'r nod o wella canlyniadau i gleifion a lleihau'r ddibyniaeth ar feddyginiaeth i drin cyflyrau cronig.

Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael â'r gwaith o ailgynllunio'r gwasanaeth yn cynnwys datblygu a hyfforddi'r gweithlu.



Cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau ei hymarfer mapio adnoddau ei hun ar ddiwedd 2012. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i greu llinell sylfaen ar gyfer nodi newidiadau i wasanaethau ac i lywio penderfyniadau ar flaenoriaethu gwasanaethau. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo adeg yr archwiliad ond mae'n adnodd cynllunio gwerthfawr i gefnogi datblygiadau'r gweithlu ac ailgynllunio gwasanaethau.

Nid yw'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau yn darparu rhaglen hyfforddi ffurfiol i fynd i'r afael â'r gwaith o ailgynllunio'r gwasanaethau. Bydd angen datblygu rhaglenni hyfforddi i gefnogi newidiadau mewn arferion gweithio.

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael â'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau yn cynnwys defnydd effeithiol o gontractau fferylliaeth gymunedol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft gwasanaethau ychwanegol lleol.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Yn ogystal â'r Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu a Materion Ariannol, mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Fferylliaeth Gymunedol 2012-15 sy'n nodi sut y gellir cynnwys fferyllfeydd cymunedol yn y gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum thema allweddol a chynlluniau cyflawni, ynghyd â dyddiadau cwblhau:

- hybu iechyd ac iechyd y cyhoedd;
- integreiddio'r gweithlu o fferyllwyr cymunedol â staff eraill y tîm gofal sylfaenol a datblygu 'fferyllwyr portffolio';
- rheoli cyflyrau cronig drwy Adolygiadau o Ddefnydd Meddyginiaethau a'r gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau, cymorth gofal lliniarol a monitro gwrthgeulyddion;
- rheoli meddyginiaethau i hyrwyddo defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o feddyginiaethau;
- adran ar gyllid ac adnoddau sy'n ymdrin â phroblem gwastraff yr amcangyfrifir ei bod yn werth £5.6 miliwn yng Nghwm Taf.

Fel rhan o'r thema hybu iechyd ac iechyd y cyhoedd, anogir fferyllwyr cymunedol i ddarparu gwasanaethau i'r ardaloedd mwyaf amddifad, fel yr awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn adroddiad yn 2012<sup>4</sup>. Nod y gwasanaethau hyn yw cefnogi cynlluniau gweithredu lleol ar gamddefnyddio sylweddau a chymorth iechyd meddwl. Mae hon i'w gweld yn rôl arloesol i fferylliaeth gymunedol yn y gwaith o gefnogi agenda'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael ag iechyd meddwl gael.

<sup>4</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Distribution of community pharmacies and deprivation in Wales*, Ionawr 2012

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwylledig

Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â lleihau gwastraff, er enghraifft drwy hybu adolygiadau o feddyginiaethau gan feddygon teulu, rheoli presgripsiynau amlroddadwy a gweithio gyda fferyllwyr cymunedol.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach


Yn 2012, aildrefnodd y Bwrdd Iechyd gynllun gwaith un o uwch-aelodau presennol o staff er mwyn iddo allu arwain yr agenda gwastraff. Edrychir ar hyn nid fel menter ond fel ffordd barhaol o wella ansawdd presgripsiynu a deall y rhesymau pam y mae gwastraff yn digwydd. Mae deiliad y swydd yn datblygu strategaeth i ddod â holl fentrau'r Bwrdd Iechyd at ei gilydd. Mae'r strategaeth fferylliaeth gymunedol yn nodi bwriad strategol y Bwrdd Iechyd i wella'r defnydd o feddyginiaethau presgripsiwn a chyfyngu ar y meddyginiaethau diangen a di-alw-amdanynt a weinyddir.

## Defnydd o dystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

### Ymarfer disgwylledig

Llywir y strategaeth gan ddadansoddiad eglur o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad presgripsiynu fel demograffeg, amddifadedd, asesiad o anghenion a materion iechyd y cyhoedd.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Un o nodau strategol y Bwrdd Iechyd yw lleihau lefelau presgripsiynu am eu bod yn ymwybodol fod y lefelau cyfredol yn uchel o gymharu â gweddill Cymru. Mae UYRhM y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod y lefelau uchel i'w priodoli'n bennaf i ddemograffeg a lefelau uchel o amddifadedd. Mae'r UYRhM wedi archwilio ffyrdd o fesur amddifadedd, er enghraifft drwy bwysu ar y gwaith a wnaed drwy Gymru gan grŵp Dyrannu Adnoddau Townsend, ond nid ydynt wedi dod o hyd i ddull addas o fesur ar gyfer deall beth fyddai'r lefelau presgripsiynu priodol ar gyfer eu poblogaeth. Bydd angen i'r UYRhM wneud gwaith pellach ar feincnodi mewn ardaloedd tebyg yn y DU os yw am ddeall arwyddocâd ei batrymau presgripsiynu ei hun.

## Defnydd o dystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

| Ymarfer disgwyliedig   | Ar waith?  | Gwybodaeth bellach   |
|--|------------|--|
| <p>Mae'r strategaeth yn cefnogi ac yn cydweddu â pholisïau cenedlaethol mewn perthynas â meddyginiaeth yn cynnwys canllawiau NICE a chanllawiau Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar effaith cyffuriau newydd a newid yn y defnydd o gyffuriau presennol.</p> | <p>✓</p>   | <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd broses ar gyfer gweithredu canllawiau NICE ac AWMSG. Gwneir hyn drwy grwpiau llywio, wedi'u cydgysylltu gan yr adran archwilio a'u cefnogi gan waith rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant yn llywodraethu'r trefniadau monitro ac adrodd trosfwaol, ac yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.</p>  |
| <p>Mae'r strategaeth yn cydweddu â 1000 o Fywydau a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol.</p>   | <p>✓/x</p> | <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau wedi ymgorffori 1000 o Fywydau yn ei gyfeiriad strategol drwy ei grŵp Rheoli Meddyginiaethau 1000 o Fywydau a sefydlwyd yn 2010. Ffocws gofal eilaidd yn bennaf sydd i brosiectau 1000 o Fywydau, er enghraifft clinigau gwrthgeulo. Yn fwy diweddar, datblygodd hwn yn grŵp rhithiol gyda'i waith wedi'i ymgorffori yn is-grŵp Diogelwch Meddyginiaethau y PRhMG. Ni cheir gwybodaeth ynglŷn â sut y mae'r strategaeth rheoli meddyginiaethau yn cydweddu â fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol.</p> |
| <p>Paratowyd y strategaeth gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol megis meddygon teulu, meddygon ymgynghorol ysbytai a chynrychiolwyr cleifion.</p>   | <p>x</p>   | <p>Ychydig o dystiolaeth o ymgysylltiad â chleifion a rhanddeiliaid ar ddatblygu strategaethau a chynlluniau presgripsiynu gofal sylfaenol a welwyd yn ystod ein gwaith archwilio. Mae'n gyfle a gollwyd ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu'r agwedd hon er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth.</p>  |



---

**Dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth****Ymarfer disgwyliedig**

Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar: y cynnydd hanesyddol yn y bil cyffuriau lleol.

**Ar waith?****Gwybodaeth bellach**

Mae'r cynnydd yn lefelau presgripsiynu gofal sylfaenol wedi amrywio dros y chwe blynedd diwethaf, o -4.4 y cant i +4.1 y cant. Roedd cynnydd y Bwrdd Iechyd yn is na chynnydd cyfartalog Cymru ers nifer o flynyddoedd, ond mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd yr UYRhM yn ymwybodol fod ardaloedd eraill wedi sicrhau llai o gynnydd cyn i Gwm Taf wneud hynny ond mae'n bosibl fod demograffeg a materion yn ymwneud â rhai practisau meddygon teulu yn y gorffennol yn egluro pam fod oedi yn amserlen Cwm Taf. Hefyd, mae eu dull o weithredu yn seiliedig ar osgoi symud costau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd sy'n dangos bod gweithio integredig o fudd i'r Bwrdd Iechyd.

Gosododd Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau a Phrif Fferylllydd yr UYRhM eu targed presgripsiynu blynyddol ar y cyd â'r Adran Gyllid. Mae'r UYRhM yn modelu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chyrraedd y targed arbedion ariannol. Mae cynnal cynnydd isel o ran costau presgripsiynu yn cefnogi sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, sy'n heriol iawn. Y prif ysgogiad ar gyfer gosod y targed yw lefel ganrannol y cynnydd, ond gan ystyried effaith (sydd fel arfer yn gadarnhaol) y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol a CatM hefyd. Gan na fydd ffigurau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn yn hysbys, pan osodir y targed, bydd y tîm yn defnyddio'u crebwyll, eu profiad a'u gwybodaeth am y diwydiant i gefnogi'r broses o osod targedau cyraeddadwy.

## Dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

| <i>Ymarfer disgwyliedig</i>   | <i>Ar waith?</i> | <i>Gwybodaeth bellach</i>  |
|---|------------------|--|
| Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar: bresgripsiynu generig a'r defnydd o gyffuriau brand.  | ✓                | Mae strategaeth eglur a llwyddiannus wedi bod gan y Bwrdd Iechyd ers blynyddoedd lawer ar gyfer hyrwyddo presgripsiynu generig. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn datblygu a hyrwyddo llyfr fformiwlâu, ScriptSwitch, i dargedu gweithgarwch cynghorwyr fferyllol a rhaglenni addysg sy'n ffyrdd o wella presgripsiynu generig.  |
| Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar: effaith cyffuriau newydd a newid yn y defnydd o gyffuriau presennol yn cynnwys eu heffaith ar lwybrau gofal presennol.                                  | ✓/x              | Mae gan y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau fodel sefydledig ar gyfer cynllunio, monitro a darogan gwariant ar feddyginiaethau mewn perthynas â gofynion NICE. Er hynny, nid yw'n bosibl darogan gwariant yn y dyfodol yn fanwl gywir bob amser. Maent yn ymwybodol mai dyma'r pwysau mwyaf ar eu trefniadau cynllunio cyllideb. Nid yw'r UYRhM yn ystyried yr effaith ar lwybrau gofal presennol. |
| Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar: drefniadau wrth gefn ar gyfer datblygiadau heb eu cynllunio, er enghraifft defnyddio gwrthfotigau costus os oes mathau o heintiau ymwrthol yn datblygu. | x                | Nid oes darpariaeth yn y trefniadau cynllunio ariannol presennol ar gyfer datblygiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio.   |

## Monitro canlyniadau a pherfformiad

### Ymarfer disgwylidig

Ceir nodau strategol, canlyniadau ac amcanion CAMPUS eglur.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Nodau'r strategaeth yw lleihau gwariant a gwella ansawdd presgripsiynu. Mae hyn yn cael ei fynegi'n eglur, ei fonitro'n rheolaidd a'i ddeall yn dda. Mae'r gofyniad i gyrraedd y targed presgripsiynu drwy gyflawni'r pedwar cam gweithredu o fewn y cynllun gweithredu blynyddol yn cydymffurfio ag amcanion CAMPUS.

Y Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau sy'n gyfrifol am gyrraedd targed presgripsiynu gofal sylfaenol. Y Prif Fferyllydd, UYRhM, sy'n arwain y gwaith o sicrhau bod y cynlluniau gwaith cyfunol i bractisau yn corffori'r newidiadau penodol, ac y bydd gostyngiadau yn cynnal lefel ddymunol o gynnydd. Mae'r UYRhM yn cymharu ei hun â byrddau ieuchyd eraill, yn bennaf Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, er y byddent yn hoffi cael data ar gyfer cymharu â Lloegr.

Mae'r fframwaith ar gyfer monitro cyflawniad yn cynnwys adrodd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau priodol.



Mae'r UYRhM yn monitro'r ystod eang o fesurau'n glòs, yn cynnwys cynnydd yn erbyn targedau gwariant ac arbedion. O'r mesuriadau hyn, llunnir un adroddiad eglur a hawdd ei ddilyn. Caiff y mesuriadau eu hadrodd yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Gofal Iechyd Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl a chyfarfod busnes clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda am fod gan yr UYRhM arbenigedd canolog i allu cyflawni dadansoddiadau soffistigedig o ddata er mwyn galluogi'r cyfarfod busnes clinigol i gyflawni'r lefel angenrheidiol o waith craffu.

---

## Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

11. Mae atebolrwydd rheolaethol dros reoli meddyginiaethau yn eglur a dylai targedu'r arferion lle ceir y gwariant mwyaf gynhyrchu mwy o enillion ar fuddsoddiad. Mae gan y Bwrdd lechyd lyfr fformiwlâu sefydledig ac mae integreiddiad fferylliaeth sylfaenol ac eilaidd yn arwain at welliannau ar draws y rhyngwyneb:
- **Trefniadau rheoli:** mae'r trefniadau atebolrwydd gweithredol, proffesiynol a rheolaethol dros reoli meddyginiaethau a phresgripsiynu gofal sylfaenol yn eglur ac mae integreiddiad staff rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd eisoes yn creu manteision yn holl feysydd gwasanaeth y Bwrdd lechyd.
  - **Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol:** mae dau dîm cyngor presgripsiynu'r Bwrdd lechyd yn treulio dros hanner eu hamser gyda phractisau meddygon teulu ac yn elwa o ddata sy'n cael ei ddadansoddi'n ganolog gan yr UYRhM. Ceir tystiolaeth o ddefnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau cyfyngedig ar ffurf cymorth cynghorydd fferyllol sy'n targedu'r practisau sy'n gwario fwyaf.
  - **Llyfr fformiwlâu'r Bwrdd lechyd:** datblygwyd y llyfr fformiwlâu ar y cyd â Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac mae'n cael ei dderbyn a'i ddefnyddio'n eang gan feddygon teulu.
  - **Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant (PRhMG):** mae PRhMG Cwm Taf yn gweithio'n glòs gyda Phwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg Bro Taf i roi sicrwydd bod y trefniadau rheoli meddyginiaethau yn sicrhau'r gofal gorau i gleifion, yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Bwrdd lechyd.
  - **Gweithio ar y rhyngwyneb:** gyda thros 30 o brotocolau rhannu gofal o ansawdd da ar waith, mae gan y Bwrdd lechyd broses drylwyr a sefydledig o ddatblygu protocolau a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.
12. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau uchod.

---

## Trefniadau rheoli

### Ymarfer disgwylidig

Mae atebolrwydd proffesiynol a rheolaethol eglur dros holl brosesau rheoli meddyginiaethau a phresgripsiynu gan feddygon teulu. Dylai hyn gynnwys arweiniad gweithredol ar lefel y Bwrdd.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Mae'r atebolrwydd proffesiynol gweithredol a rheolaethol dros reoli meddyginiaethau a phresgripsiynu gofal sylfaenol yn eglur. Y Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau sy'n arwain y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau, ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl, arweinydd gweithredol Rheoli Meddyginiaethau y Bwrdd Iechyd.

Yn ddiweddar, gwnaed y Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, gan ddangos pwysigrwydd rheoli meddyginiaethau i gefnogi'r gwaith llywodraethu clinigol. Mae hyn yn creu cysylltiad uniongyrchol rhwng rheoli meddyginiaethau a'r bwrdd gweithredol sy'n ategu'r ystyriaeth sydd i reoli meddyginiaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r UYRhM yn cynhyrchu adroddiad llywodraethu blynyddol integredig ar fferylliaeth sy'n mynd gerbron pwyllgor llywodraethu clinigol y Bwrdd Iechyd sef Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd. Mae hon yn sianel briodol ar gyfer gwaith craffu a rhoi sicrwydd ynglŷn â diogelwch cleifion.

## Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol

### Ymarfer disgwylledig

Mae cymorth presgripsiynu gofal sylfaenol a swyddogaethau cynghori wedi'u diffinio'n eglur.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Mae gan fferyllwyr a thechnegwyr y ddau dîm presgripsiynu lleol swyddogaethau wedi'u diffinio'n eglur; arweinydd tîm sy'n fferylllydd, cynghorwyr presgripsiynu; technegwyr a swyddogion cymorth presgripsiynu. Hefyd, ceir dau fferylllydd cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio sifftiau ar batrwm cylch. Fferyllwyr yw'r rhain a fydd yn treulio amser yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu fel rhan o broses ddatblygu integredig ar gyfer fferyllwyr.

Mae'r timau rheoli meddyginiaethau wedi'u hintegreiddio ar draws y tri safle yng Nghwm Taf; Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Cwm Rhondda. Mae'r rhain yn swyddi sydd sefydledig.

Ceir fferylllydd anadlol dynodedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y lefelau uchel o bresgripsiynu anadlol, ac felly wedi penodi fferylllydd i weithio gyda chleifion ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.

Cynhaliwyd ymarfer dyddiadur gennym o weithgarwch cyngor presgripsiynu ym mhob bwrdd iechyd, ac mae'r manylion i'w gweld yn **Atodiad 6: Arddangosion 36 i 38**. Mae'n dangos fod cynghorwyr fferyllol yn treulio dros hanner eu hamser gyda phractisau meddygon teulu ac yn elwa o ddata a ddadansoddir yn ganolog gan yr UYRhM. Mae nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a ddefnyddir i gefnogi presgripsiynu gofal sylfaenol (o'i haddasu ar gyfer y boblogaeth) yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd lefelau staffio uwch na chyfartaledd Cymru.

Yn gyffredinol, caiff cynghorwyr presgripsiynu eu derbyn yn rhan o dîm y practis meddygon teulu er mai'r Bwrdd Iechyd sy'n eu cyllido.

Mae rhai meddygon teulu yn cyllido amser ychwanegol am eu bod yn cydnabod y budd o gael fferyllwyr yn eu practis. Mae hyn yn arfer da ac yn dangos fod meddygon teulu'n cydnabod y manteision i'w practis o gael amser fferyllol ychwanegol.

## Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol

### Ymarfer disgwyliedig

Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth eu monitro a chyfeirir adnoddau'r tîm presgripsiynu tuag at feysydd blaenoriaeth a lle gellir cael llawer o effaith.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth pob practis meddygon teulu eu monitro'n fanwl. Mae graddau'r monitro yn dibynnu ar y practis a'i gynllun unigol, ac mae'n cynnwys:

- perfformiad y broses bresgripsiynu;
- cynnydd yn lefel a gwariant presgripsiynu;
- perfformiad gwariant yn erbyn targedau arbedion y Bwrdd Iechyd;
- perfformiad ar ymyriadau therapiwtig generig;
- perfformiad o gymharu â phractisau eraill a'r Bwrdd Iechyd ar Ddangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol;
- y 10 cyffur uchaf yn ôl gwariant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- cynllun gweithredu ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Ansawdd meddyginiaethau 6 a 10.

Yn 2012-13, gosodwyd targed arbedion o 3 y cant i bob practis meddygon teulu. Ar gyfer 2013-14, dyrannwyd targedau i bob practis wneud arbedion unigol o rhwng 2 y cant a 3.5 y cant yn dibynnu ar yr arbedion sydd ar gael. Mae'r ffocws wedi'i dargedu'n briodol ar leihau costau a gwneud rhai gwelliannau ansawdd fel mai'r effaith gyffredinol yw manteision i iechyd cleifion a lleihau gwariant. Er mwyn elwa i'r eithaf ar adnoddau fferyllol cyfyngedig, clustnododd y tîm rheoli meddyginiaethau y 10 practis sy'n gwario fwyaf yng Nghwm Taf. Rhyngddynt, mae'r rhain yn gwario bron £17 miliwn. Yn ystod 2012-13, targedwyd cymorth mwy dwys i'r practisau hyn gan gynghorwyr presgripsiynu'r Bwrdd Iechyd gyda'r nod o gynhyrchu lefelau uwch o arbedion i'r Bwrdd Iechyd. Er nad yw effaith y fenter hon wedi'i gwerthuso, mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod yr arbedion a ragwelwyd a gwelliannau yn y trefniadau presgripsiynu yn cael eu cyflawni ac y byddant yn parhau yn 2013-14.

## Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol

| Ymarfer disgwylidig   | Ar waith? | Gwybodaeth bellach  |
|---|-----------|---|
| Mae systemau a phrosesau dadansoddi data a gwybodaeth reoli hygyrch ar waith i gefnogi gwaith cyngor presgripsiynu. | ✓         | Er mwyn sicrhau bod amser cynghorydd fferyllol ar gael i roi cymorth uniongyrchol i feddygon teulu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu UYRhM bwrpasol. Mae'r uned hon yn darparu data a gwybodaeth yn ganolog i'r timau cyngor fferyllol. Maent yn cael adroddiadau a gwybodaeth reolaidd sy'n bodloni'r rhan fwyaf o'u hanghenion ond gallant hefyd ofyn am wybodaeth benodol mewn perthynas ag anghenion penodol y practis meddygon teulu ac mae hon ar gael fel arfer o fewn rhai dyddiau. Mae meddygon teulu'n ymateb yn dda i'r siartiau Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol sy'n dangos eu safle ochr yn ochr â phractisau eraill. Hefyd, gall pob fferylllydd fynd ar CASPA.net <sup>5</sup> yn y meddygfeydd os yw meddygon teulu'n gofyn am wybodaeth benodol.  |
| Mae rhaglen addysg ar bresgripsiynu rhesymegol mewn gofal sylfaenol ar waith.                                       | ✓         | Mae'r Tîm Rheoli Meddyginiaethau yn darparu addysg i ofal sylfaenol drwy fforymau amrywiol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd cyfarfodydd ardal meddygon teulu yn cael eu cynnal bob deufis. Daw siaradwyr o wahanol rannau o'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft mynychodd ymgynghorwyr a nyrsys gofal eilaidd gyfarfod yn ddiweddar i roi gwybodaeth i feddygon teulu am gynlluniau ar gyfer pobl eiddil.</li><li>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd i feddygon teulu ac mae croeso i fferyllwyr fynychu'r cyfarfod a rhoi cyflwyniadau ar sail ad hoc.</li><li>• Mae'r cynghorwyr fferyllol yn darparu hyfforddiant i feddygon iau i roi neges gyson iddynt ynglŷn ag arferion presgripsiynu da a phrotocolau a rennir. Bydd hyn yn effeithio ar ofal sylfaenol gan fod llawer o'r meddyginiaethau y bydd meddygon teulu yn eu presgripsiynu yn deillio o ofal eilaidd.</li></ul> |

<sup>5</sup> System Ddadsnoddi Gymharol ar gyfer Archwiliadau Pregripsiynu.



## Cymorth presgripsiynu ar gyfer gofal sylfaenol

| Ymarfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach   |
|----------------------|-----------|--|
|                      |           | <ul style="list-style-type: none"><li>Mae rheolwyr practis yn cynnal eu cyfarfodydd eu hunain y bydd fferyllwyr yn eu mynychu.</li><li>Gweithiodd fferyllwyr gyda Chaerdydd a'r Fro ac asiantaeth Dragon Locums i gynhyrchu pecyn i wella presgripsiynu gan fod y tîm Rheoli Meddyginiaethau wedi sylwi ar gynnydd sydyn mewn presgripsiynu amhriodol gan feddygon teulu locwm. Bydd manteision hirdymor i hyn gan y bydd rhai meddygon locwm yn mynd yn eu blaenau i fod yn feddygon teulu parhaol yn yr ardal.</li></ul> |

## Llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd

| Ymarfer disgwyliedig  | Ar waith? | Gwybodaeth bellach   |
|---|-----------|--|
| <p>Mae sefydlu llyfr fformiwlâu lleol yn adnodd pwysig i helpu i ddarparu gwybodaeth er mwyn i fwrdd iechyd allu dewis cyffuriau'n ddiogel a darbodus. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen datblygu'r llyfr fformiwlâu drwy ymgysylltu â'r clinigwyr perthnasol. Hefyd, mae angen ei hyrwyddo mor eang â phosibl ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, a dylid sicrhau ei fod ar gael yn haws, yn cynnwys yn electronig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu llyfr fformiwlâu lleol sy'n nodi'r canlynol drwy system oleuadau traffig (coch, melyn a gwyrdd) neu broses debyg:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Meddyginiaethau addas ar gyfer presgripsiynu gofal sylfaenol.</li><li>Meddyginiaethau a roddir gyntaf mewn ysbyty/sefydliad arbenigol ond sy'n addas ar gyfer gofal a rennir â gofal sylfaenol o dan gytundeb rhannu gofal y bwrdd iechyd.</li></ul> | <p>✓</p>  | <p>Mae Cwm Taf wedi datblygu llyfr fformiwlâu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro dros hen ardal Bro Taf. Fe'i sefydlwyd ynghanol y 1990au ac mae'n cael ei arwain gan ofal sylfaenol. Addaswyd fersiwn ogleddol o'r llyfr fformiwlâu ar gyfer Cwm Taf. Cedwir y llyfr fformiwlâu ar wefan Canolfan Wybodaeth am Foddion Cymru (WMIC) a cheir dolen iddo o dudalennau rheoli meddyginiaethau Cwm Taf, SharePoint. Mae'n cael ei ddiweddarau bob deufis.</p> <p>Nid yw'r llyfr fformiwlâu yn defnyddio system oleuadau traffig ond mae ganddi ei phedwar categori ei hun. Nid yw'r categorïau hyn yr un fath â'r system oleuadau traffig ond maent yn briodol ac yn cynnwys elfen o ystyried costau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Llinell gyntaf, dewis cyntaf addas i feddygon teulu a meddygon nad ydynt yn arbenigwyr, e.e. uwch-swyddogion preswyl.</li><li>Ail linell, hefyd yn addas i'r uchod, ond o bosibl i'w gadw tan ar ôl i sylwedd llinell gyntaf gael ei brofi a'i wrthod ar sail sgil-ffeithiau neu alergedd. Mewn llawer o achosion, bydd y rhain yn sylweddau drutach.</li></ul> |

## Llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd

### Ymarfer disgwyliedig

- Mae cyfrifoldeb am bresgripsiynu yn gorwedd gyda meddyg ymgynghorol mewn ysbyty neu arbenigwr.
- Nid yw'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg yn argymhell defnyddio meddyginiaethau heblaw mewn amgylchiadau eithriadol Yn yr achosion hyn, mae angen cyngor gan gynghorydd presgripsiynu a chofnodi'r rhesymau dros bresgripsiynu.

Caiiff cydymffurfiaeth â'r llyfr fformiwlâu ei monitro a rhoddir camau ar waith mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

- Wedi'u rhagnodi gan arbenigwr, gall meddygon teulu roi presgripsiynau dilynol ond arbenigwr ddylai bresgripsiynu/ sefydlogi'r feddyginiaeth yn y lle cyntaf. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cyffuriau lle ceir protocolau rhannu gofal ar eu cyfer.
- Categoriâu ysbyty yn unig. Caiiff pob presgripsiwn eu rhagnodi o'r ysbyty neu ddim ond ysbytai sy'n gymwys i'w defnyddio e.e. anestheteg, trwythau, neu driniaethau un-tro. Fel arfer, dim ond arbenigwyr fydd yn defnyddio'r triniaethau hyn.

Mae'r llyfr fformiwlâu wedi sefydlu'n dda ar draws Cwm Taf ac yn cael ei dderbyn gan feddygon teulu. Tynnir enwau brand oddi ar y system bresgripsiynu ac mae meddygon teulu'n cefnogi'r trefniant hwn er mwyn cyfyngu ar gamgymeriadau. Mae meddygon teulu'n dal yn rhydd i wneud eu penderfyniadau presgripsiynu eu hunain sy'n cael eu trafod mewn ymweliadau â'r practis drwy drefniadau cydymffurfio â'r llyfr fformiwlâu.

## Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant

| Ymarfer disgwyliedig  | Ar waith?  | Gwybodaeth bellach   |
|---|------------|--|
| <p>Mae gwaith grwpiau cyffuriau a therapiwteg lleol yn elfen allweddol o sicrhau defnydd diogel, effeithiol a darbodus o gyffuriau newydd a mathau newydd o driniaethau. Mae'r PRhMG yn cynnwys aelodau o'r holl randdeiliaid i bob pwrpas, yn cynnwys aelodau lleyg.</p> | <p>✓</p>   | <p>Ceir proses ddau gam ar gyfer ceisiadau am gyffuriau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad therapiwtig gan Bwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg (PCaTh) Bro Taf;</li> <li>• asesiad economaidd gan y Pwyllgor Bwrdd Iechyd priodol ar gyfer yr ardal (PRhMG).</li> </ul> <p>Mae cynrychiolaeth briodol gan PCaTH Bro Taf yn cynnwys clinigwyr allweddol ac aelod lleyg. Ni chafodd PCaTH Bro Taf ei adolygu fel rhan o archwiliad Cwm Taf.</p> <p>Mae PRhMG Cwm Taf yn rhoi sicrwydd bod rheoli meddyginiaethau yn sicrhau'r gofal gorau i gleifion a'i fod yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd. Daw aelodau'r PRhMG o bob rhan o'r sector gofal sylfaenol a'r sector eilaidd i gynrychioli'r holl randdeiliaid meddygol.</p> <p>Newidiodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau pwyllgor yn ddiweddar i gorffori tri phwyllgor am fod lefelau presenoldeb yn disgyn. Mae'r PRhMG yn cynnwys is-grwpiau i ymdrin â diogelwch a datblygu canllawiau, gweithdrefnau a rheoli ansawdd. Diben y trefniant yw cadw ffocws y PRhMG ar wneud penderfyniadau gan sicrhau bod y gwaith tanategol yn cael ei gwblhau.</p> |
| <p>Mae'r aelodau'n cynnwys ystod eang o arbenigeddau meddygol. Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i wybodaeth gymhleth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cadarn.</p>  | <p>✓/x</p> | <p>Mae aelodau'r PRhMG yn cynnwys ystod eang o gyflyrau meddygol yn cynnwys gofal henoed, patholeg, iechyd meddwl, rheumatoleg, offthalmoleg, meddyginiaeth aciwt a damweiniau ac achosion brys. Dim ond dau feddyg ymgynghorol a fynychodd y cyfarfod ym mis Tachwedd ac nid oedd unrhyw feddygon teulu'n bresennol. Mae presenoldeb yn parhau'n broblem ac mae angen mynd i'r afael â'r mater os yw'r PRhMG yn mynd i feddu ar yr awdurdod priodol.</p>  |
| <p>Mae'r blaengynllun yn pennu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn.</p>   | <p>✓</p>   | <p>Trefnwyd naw cyfarfod ar gyfer 2013. Pennir y rhaglen waith o dan dri phennawd safonol (diogelwch meddyginiaeth, llywodraethu meddyginiaethau a gwariant ar feddyginiaethau) sy'n cael eu cefnogi gan waith yr is-bwyllgorau.</p>   |

## Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant

| <i>Ymarfer disgwyliedig</i>  | <i>Ar waith?</i> | <i>Gwybodaeth bellach</i>  |
|--|------------------|--|
| Mae'r pwyllgor yn defnyddio'r ystod lawn o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.                  | ✓                | Mae PCaTh Bro Taf yn darparu argymhellion ynglŷn â chyffuriau newydd, a bydd y PRhMG yn penderfynu a ddylid eu cynnwys yn llyfr fformiwlâu Cwm Taf ai peidio. Mae rheoli pa gyffuriau newydd i'w derbyn yn un o brif swyddogaethau'r Tîm Rheoli Meddyginiaethau. Maent yn darparu gwerthusiadau o faterion yn ymwneud â chost a phrosesau arfarniadau technegol newydd NICE ac yn crynhoi eu heffaith ar y Bwrdd lechyd. Mae hon yn swyddogaeth allweddol ac yn pwysleisio'r flaenoriaeth y mae'r Bwrdd lechyd yn ei roi i reoli costau wrth gynnal gwerthusiadau.               |
| Mae gan y pwyllgor broses gadarn, systematig a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau fel rhan o'i fframwaith llywodraethu cyffredinol. | ✓                | Pan wneir penderfyniad ynglŷn ag eitemau, cânt eu nodi'n eglur yn agenda a chofnodion y PRhMG. Yna, caiff gwybodaeth am benderfyniadau ei rhannu â'r staff priodol ar gyfer eu gweithredu.   |
| Mae pob penderfyniad presgripsiynu yn ystyried effaith nwyddau ar golled mewn gofal eilaidd ar ofal sylfaenol.                           | ✓                | Mae'r UYRhM yn ymwybodol o broblemau gyda phrisio gwahaniaethol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Ceir enghreifftiau lle cafodd hyn ei gydnabod, gan arwain at gyhoeddi canllawiau presgripsiynu newydd, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> <li>• presgripsiynu melatonin pediatriig fel tabledi yn lle capsiwlau;</li> <li>• presgripsiynu methotrexate lle bynnag y bo modd mewn gofal eilaidd yn hytrach na gofal sylfaenol.</li> </ul>   |
| Caiff penderfyniadau'r pwyllgor eu cyfleu mewn modd amserol.   | ✓                | Yn ôl yr arfer, bydd fferyllwyr sy'n ymweld â phractisau meddygon teulu yn rhoi gwybod iddynt am feddyginiaethau newydd yn enwedig os ydynt yn ddadleuol neu'n mynd i gael effaith ariannol. Mae'r UYRhM yn darparu cylchlythyrau i feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn rheolaidd. Mae diwyg y cylchlythyrau hyn yn eglur ac maent yn cynnwys diweddariadau i'r llyfr fformiwlâu a phynciau penodol, er enghraifft paratodau clwy'r gwair. Yn ogystal, mae dogfennau ar gael ar SharePoint sy'n cael ei ddefnyddio gan fferyllwyr ac aelodau eraill o staff y Bwrdd lechyd. |

**Gweithio ar y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd**

**Ymarfer disgwyliedig**

**Ar waith?**

**Gwybodaeth bellach**

Ceir polisi neu brotocolau gweithio sy'n sicrhau bod meddyginiaethau a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.




Mae gan y Bwrdd Iechyd broses drylwyr sydd wedi sefydlu'n dda ar gyfer datblygu protocolau rhannu gofal a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae PCaTh Bro Taf wedi datblygu canllawiau cyffredinol ar rannu gofal a phrofion lleol i gleifion ar gyfer tua 30 o gyffuriau. Yn ogystal â'r protocolau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cylchlythyr eglurhaol dwy dudalen o hyd i bob meddyg teulu a meddyg ymgynghorol sy'n nodi siart llif rhannu gofal syml a'u cyfrifoldebau. Mae'r holl wybodaeth am y protocolau ar gael ar y rhyngwyd a'i gynnal gan WMIC.

Mae gan PCaTh Bro Taf is-grŵp Rhannu Gofal sy'n cynnwys meddygon teulu a meddygon ymgynghorol, dan gadeiryddiaeth meddyg teulu. Dyma'r fforwm ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â gweithredu protocolau rhannu gofal.

Penododd y Bwrdd Iechyd fferylllydd o'u UYRhG i fod yn gydlynnydd y protocol rhannu gofal. Mae hi'n ateb ymholiadau gan feddygon teulu pan gaiff protocolau rhannu gofal eu cychwyn ac mae'n gyswllt pwysig rhwng y Bwrdd Iechyd a gofal sylfaenol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cysoni meddyginiaethau ar waith wrth dderbyn cleifion i ysbyty sy'n nodi'r rhestr fwyaf manwl o feddyginiaethau ar gyfer y claf. Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n bosibl canfod unrhyw anghysonderau a chofnodi newidiadau, gan arwain at restr gyflawn o'r meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu i'r claf.



Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cysoni meddyginiaethau ar waith ac mae'n monitro'r ganran o gleifion y cysonwyd eu meddyginiaethau o fewn 24 awr. Y targed yw 90 y cant er mai cyfartaledd o 68 y cant a gafwyd yn ystod chwe mis cyntaf 2012, sy'n amlygu'r angen i wella.

## Gweithio ar y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd

### Ymarfer disgwyliedig

Anfonir llythyrau rhyddhau o'r ysbyty at feddygon teulu'n amserol, yn cynnwys gwybodaeth eglur a pherthnasol i helpu i gefnogi penderfyniadau presgripsiynu mewn gofal sylfaenol. Dylai'r llythyr:

- nodi bod cyflwr y claf yn sefydlog;
- cynnwys y rhesymau dros unrhyw newid yn y meddyginiaethau;
- nodi meddyginiaethau a argymhellir wrth eu henw generig a'u dosbarth therapiwtig;
- rhoi'r rheswm pam yr argymhellir meddyginiaethau brand;
- rhoi'r rheswm pam yr argymhellir cyffuriau heb eu trwyddedu neu gyffuriau all-drwydded.

### Ar waith?

✓/x

### Gwybodaeth bellach

Yn y gorffennol, nid oedd trefniadau trosglwyddo o ofal sylfaenol ac eilaidd yn gweithio'n dda. I gydnabod y tensiynau hyn, mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithio'n glòs gyda meddygon teulu a meddygon ymgynghorol ysbytai i gynhyrchu llythyr gwell ar gyfer darparu cyngor wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Gwelwyd hyn fel ffordd hawdd o ddangos manteision gweithio integredig. Fodd bynnag, mae angen gweithredu hyn yn llawn ac adolygu cynnydd er mwyn pennu pa mor dda y mae'r newidiadau hyn yn gweithio'n ymarferol.

## Cyflawni presgripsiynu diogel, effeithiol a darbodus

13. Mae gan y Bwrdd lechyd hanes da o wneud arbedion ariannol drwy bresgripsiynu'n fwy rhesymegol mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae lle i wneud arbedion ychwanegol ac i adolygu'n feirniadol y modd y caiff rhai cyffuriau penodol eu presgripsiynu fel rhan o ffocws mwy manwl ar faterion ansawdd a diogelwch:

- **Gosod y gyllideb a pherfformiad ariannol:** roedd targed arbedion presgripsiynu gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd o fwy na £1 miliwn yn 2012-13 yn realistig ac yn deillio o ddefnyddio data priodol ynglŷn â chostau hanesyddol a phwysau costau yn y dyfodol. Mae costau presgripsiynu wedi gostwng £2.3 miliwn o gymharu â 2011-12 sy'n dangos bod y ffocws ar leihau costau a lefelau presgripsiynu yn gweithio'n ymarferol.
- **Monitro ariannol:** mae'r UYRhM yn cynhyrchu adroddiad 'fflach' misol sy'n cynnwys y mesuriadau sy'n berthnasol ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn gwariant, ansawdd a'r targed arbedion; mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda am fod gan yr UYRhM arbenigedd canolog i gynnal dadansoddiadau data helaeth a chaiff y mesuriadau rheoli meddyginiaethau eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac lechyd Meddwl a chyfarfod busnes clinigol y Bwrdd lechyd.

- 
- **Cyfanswm y gwariant ar bresgripsiynu gofal sylfaenol:** gwariodd y Bwrdd Iechyd £53 miliwn ar gyffuriau gofal sylfaenol rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mai 2013, sef £128,649 am bob 1,000 o unedau presgripsiwn (UP), sy'n golygu mai dyma'r gwariant uchaf ar gyffuriau gofal sylfaenol yng Nghymru; er bod lefelau uchel o amddifadedd yn egluro peth o'r gwariant uchel hwn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn hyderus nad oes ffactorau eraill o fewn eu rheolaeth yn cyfrannu ato.
  - **Dangosyddion presgripsiynu effeithiol:** er bod gan y Bwrdd Iechyd gyfradd uchel o bresgripsiynu generig, mae potensial o hyd i gynhyrchu arbedion o tua £1.2 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion drwy gynyddu lefelau presgripsiynu generig, lleihau'r defnydd o baratodau llai addas ar gyfer presgripsiynu, a thrwy wella trefn presgripsiynu cyffuriau sydd wedi'u cynnwys yn y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol.
  - **Presgripsiynu cynhyrchion rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd ac anymataliaeth:** mae lefelau presgripsiynu gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd ac atchwanegiadau bwyd y Bwrdd Iechyd yn uchel a lefelau presgripsiynu cynhyrchion anymataliaeth a stoma yn ganolig, sy'n tanlinellu'r angen i dargedu'r meysydd presgripsiynu hyn yn well.
  - **Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol:** mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda iawn mewn rhai Dangosyddion (atalyddion ACE, atalyddion pwmp proton (PPI), ibuprofen a naproxen, inswlin hirdymor) ond yn wael mewn dangosyddion eraill (dosulepin, hypnotigion ac ancsiolytigau). Mae hyn yn adlewyrchu ffocws y Bwrdd Iechyd ar feysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol. Er bod hyn yn gadarnhaol o safbwynt ariannol, rhaid rhoi mwy o sylw i'r dangosyddion sy'n canolbwyntio mwy ar ansawdd lle nad yw'n perfformio cystal.
  - **Cofnodi Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau:** lefel isel o gydymffurfiaeth â'r Cerdyn Melyn ar gyfer cofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau sydd i'w weld yn y Bwrdd Iechyd. Mae wedi cydnabod hyn a bellach mae'n darparu hyfforddiant i feddygon teulu ac yn archwilio llwybrau electronig ar gyfer cofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac mae'n adolygu ei strategaeth diogelwch cleifion.
  - **Gwastraffu cyffuriau:** mae gan y Bwrdd Iechyd brif fferylllydd sy'n cynhyrchu strategaeth ar gyfer crynhoi gwaith ar ymgyrchoedd i leihau'r arfer o wastraffu cyffuriau, cynlluniau cymhelliant ym maes presgripsiynu amlroddadwy gyda fferyllwyr cymunedol a phractisau meddygon teulu, yn ogystal â chanolbwyntio ar y rhesymau pam nad yw cleifion yn cymryd eu meddyginiaethau fel y rhagnodwyd. Mae hon yn agwedd gadarnhaol a ddylai arwain at leihau gwastraffu cyffuriau.

14. Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad.

## Gosod y gyllideb a pherfformiad ariannol

| Ymarfer disgwyliedig   | Ar waith? | Gwybodaeth bellach  |
|--|-----------|---|
| <p>Mae angen dull eglur o osod y gyllideb ar gyfer presgripsiynu gofal sylfaenol sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• deg ac yn ddigonol ar gyfer diwallu anghenion clinigol cleifion;</li> <li>• ystyried y cynnydd fydd ei angen mewn presgripsiynu er mwyn gwella agweddau clinigol ar bresgripsiynu;</li> <li>• ystyried y gwelliannau sydd eu hangen er mwyn gwneud presgripsiynu'n gost-ffeithiol;</li> <li>• defnyddio methodoleg agored a thryloyw.</li> </ul> | <p>✓</p>  | <p>Bob blwyddyn, mae Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau a'r Prif Fferylllydd yr UYRhM ar y cyd â'r Adran Gyllid yn gosod y targed presgripsiynu. Yn 2012-13, nod y targed oedd lleihau'r cynnydd yng ngwariant gofal sylfaenol o 1.0 pwynt canran i 2.3 y cant y flwyddyn. Mae'n ffordd syml o fynd ati gan fod y broses yn un drefnus a chyfathrebu da â'r Adran Gyllid. Roedd yr Adran Gyllid a'r tîm Rheoli Meddyginiaethau yn fodlon â'r dull hwn o weithredu gan ei fod yn arwain at darged heriol ond cyraeddadwy.</p> |
| <p>Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel tîm a chamau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith os nad yw'r targedau'n cael eu cyrraedd.</p>   | <p>✓</p>  | <p>Caiff y gwariant ei fonitro'n glôs iawn gan yr UYRhM sy'n cynhyrchu adroddiad 'fflach' bob mis ar gyfer tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r arbedion sydd wedi'u cynllunio ac amrywiadau i'r cynllun i lawr i lefel y practis gan ei gwneud hi'n bosibl targedu ymyriadau i bractisau pan fo perfformiad yn llithro.</p>   |
| <p>Mae gwariant ar bresgripsiynu gofal sylfaenol yn parhau o fewn y gyllideb ac mae targedau arbedion yn cael eu cyrraedd.</p>   | <p>✓</p>  | <p>Roedd gan y Bwrdd lechyd darged ar gyfer 2012-13 i wneud £1 miliwn o arbedion sy'n ailadrodd o bresgripsiynu gofal sylfaenol. Roedd cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn yn £53.1 miliwn o gymharu â £55.5 miliwn ar gyfer 2011-12. Cafwyd gwelliant ar y targed drwy gydol 2012-13.</p>  |
| <p>Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel y Bwrdd.</p>   | <p>✓</p>  | <p>Mae'r mesuriadau rheoli meddyginiaethau yn cael eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac lechyd Meddwl a chyfarfod busnes clinigol y Bwrdd lechyd yn fisol ac maent yn eglur a hawdd eu dilyn.</p>   |



---

## Cyfanswm y gwariant ar bresgripsiynu gofal sylfaenol

### Ymarfer disgwylidig

Mae'r rhesymau dros wariant cyfredol y Bwrdd Iechyd ar bresgripsiynu gofal sylfaenol yn hysbys ac wedi'u deall.

### Ar waith?

✓/x

### Gwybodaeth bellach

Gwariodd y Bwrdd Iechyd £53 miliwn ar gyffuriau gofal sylfaenol rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mai 2013. Mae **Atodiad 2** yn nodi gwariant o dan y 15 pennawd yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain wedi'u haddasu yn ôl unedau presgripsiynu'r boblogaeth sy'n ystyried nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth. Ar ôl addasu ar gyfer y boblogaeth, Cwm Taf sy'n gwario fwyaf, sef £128,649, a phriodolwyd hyn i'r lefelau uchel o amddifadedd yn y gymuned.

Mae presgripsiynu anadlol gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â phresgripsiynu anadlol ac mae wedi sefydlu prosiect i fynd i'r afael â hyn ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae angen deall y rhesymau dros feysydd eraill lle mae'r gwariant yn uchel, sef presgripsiynu ar gyfer y system nerfol ganolog a phresgripsiynu cardiofasgwlaidd, er mwyn targedu gweithgarwch cymorth presgripsiynu.

15. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio yn erbyn ystod o ddangosyddion presgripsiynu a adolygwyd yn rhan o'r archwiliad. Darperir cymariaethau graffig ychwanegol yn **Atodiad 3** yr adroddiad.

## Dangosyddion presgripsiynu effeithiol

### Ymarfer disgwylledig

Gall y Bwrdd lechyd gynhyrchu arbedion pellach drwy sicrhau bod presgripsiynu cyffredinol cystal â'r hyn a gyflawnir yn y chwarter uchaf o bractisau meddygon teulu.

Mae gan y Bwrdd lechyd lefelau uchel o bresgripsiynu generig i gymharu â pherfformiad y chwarter uchaf o feddygon teulu (85 y cant), sy'n adlewyrchu presgripsiynu o ansawdd uchel, gyda llai o gamgymeriadau a chostau is. I leihau effaith amrywiadau, datblygwyd basged o gyffuriau sy'n cael eu presgripsiynu'n gyffredin gyda chyffuriau generig sy'n cyfateb iddynt (**Atodiad 3: Arddangosyn 2**) i nodi arbedion y gellir eu creu drwy wella presgripsiynu generig.

Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn disgrifio nifer o gyffuriau sy'n llai addas i'w presgripsiynu am mai gwerth clinigol cyfyngedig sydd iddynt, am eu bod wedi'u disodli gan gyffuriau mwy effeithiol neu am fod iddynt sgil-effeithiau sylweddol.

Pe bai 50 y cant o bresgripsiynau ar gyfer y paratodau hyn yn dod i ben, yna gallai'r Bwrdd lechyd greu arbedion.

Mae NICE wedi nodi nifer o gyffuriau na chânt eu hargymell i'w defnyddio'n rheolaidd. Mae lleihau'r defnydd o'r fasged hon o gyffuriau<sup>6</sup> yn adlewyrchiad o arfer presgripsiynu effeithiol a diogel.

### Perfformiad y Bwrdd lechyd

Amcangyfrifwn y gallai'r Bwrdd lechyd wneud arbedion blynyddol ychwanegol o tua £1.2 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion (gweler **Atodiad 1** am fanylion).

Mae dull hirdymor y Bwrdd lechyd o weithredu wedi canolbwyntio ar wella presgripsiynu generig ers canol y 1990au. Yn benodol, caiff cyffuriau eu rhestru yn rhestr fformiwlâu'r Bwrdd lechyd fel arfer drwy ddefnyddio'u henwau generig, sy'n arfer da am ei fod yn hyrwyddo presgripsiynu generig fel y norm.

Dengys **Atodiad 3: Arddangosyn 1** y gallai'r Bwrdd lechyd greu £196,000 o arbedion drwy wella presgripsiynu generig.

Gwariodd y Bwrdd lechyd £40,000 ar gyffuriau llai addas i'w presgripsiynu rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013 (**Atodiad 3: Arddangosyn 3**). Mae hyn yn awgrymu bod cyfle o ran ansawdd ac o ran creu arbedion o tua £80,000 dros 12 mis.

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013, gwariodd y Bwrdd lechyd £8,000 ar gyffuriau na chânt eu hargymell i'w defnyddio'n rheolaidd (**Atodiad 3: Arddangosyn 4**). Mae hyn yn awgrymu y gallai cyngor presgripsiynu â ffocws clir arwain at bresgripsiynu mwy rhesymegol a chreu £16,000 o arbedion.

Cafodd un cyffur yn y fasged, linagliptin, ei gymeradwyo gan AWMSG ym mis Mawrth 2013 a chan y gweinidog ym mis Mai 2013, gan olygu y bydd yr arbedion posibl o'r fasged hon yn llai.

<sup>6</sup> Roedd y fasged hon yn cynnwys Aliskiren, Cilostazol, Roffwmilast, Linagliptin, Paricalcitol, a Hyaluronic Acid (Sodium).

## Presgripsiynu cynhyrchion rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd ac anymataliaeth

### Ymarfer disgwylidig

#### Gorchuddion gwrthficrobaidd

Er bod gorchuddion gwrthficrobaidd yn cael eu defnyddio'n helaeth, mae tystiolaeth dros eu defnydd mewn gofal sylfaenol yn gyfyngedig ac o ansawdd gwael. O ystyried yr holl fathau o orchuddion sydd ar gael, ceir diffyg cyngor penodol mewn canllawiau cenedlaethol, ac i gydnabod cyfyngiadau ariannol, mae llyfrau fformiwlâu lleol yn darparu ffordd o resymoli'r dewis o orchuddion.

Gallai'r Bwrdd Iechyd greu arbedion drwy i bob meddyg teulu anelu tuag at y lefelau o orchuddion clwyfau gwrthficrobaidd a bresgripsiynir gan y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.

#### Atchwanegiadau bwyd

Asesodd NICE y sylfaen dystiolaeth dros atchwanegiadau maethol i'w bwyta. Hyd nes y ceir tystiolaeth bellach, daeth eu hadolygiad i'r casgliad y dylid rheoli pobl sydd angen colli pwysau ond bod hynny'n eilradd i'w salwch, naill ai drwy eu hatgyfeirio at ddietygydd, neu gan staff yn defnyddio protocolau a luniwyd gan ddietygwyr, gan atgyfeirio yn ôl yr angen. Awgrymai tystiolaeth un astudiaeth o arlwyo mewn ysbytai gan Swyddfa Archwilio Cymru fod atchwanegiadau maethol yn cael eu rheoli'n wael yn y gymuned; mae'r costau, a lefelau gwastraff, yn uchel.

Gallai'r Bwrdd Iechyd greu arbedion pe bai cost yr eitem yn gostwng i'r gost gyfartalog isaf yng Nghymru. Mae'n bosibl y gellid creu arbedion pellach drwy leihau nifer yr eitemau.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Mae **Atodiad 3: Arddangosyn 5** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario £1 miliwn rhwng mis Medi 2011 a mis Awst 2012 ar orchuddion clwyfau a'r bwrdd hwn sydd â'r ganran ail uchaf o bresgripsiynau ar gyfer gorchuddion gwrthficrobaidd yng Nghymru (6.8 y cant). Gallai'r Bwrdd Iechyd arbed tua £50,000 pe baent yn presgripsiynu'r un gyfran o orchuddion clwyfau gwrthficrobaidd â'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau.

Ar hyn o bryd, nid oes prosiectau ar y gweill gan y tîm rheoli meddyginiaethau i wella presgripsiynu gorchuddion clwyfau. Mae presgripsiynu gorchuddion yn ddangosydd sy'n cael ei ddefnyddio'n rhan o'r gwaith gyda phractisau meddygon teulu ond byddai'r Bwrdd Iechyd yn elwa o waith targedu pellach yn y maes hwn.

Mae **Atodiad 3: Arddangosyn 6** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario dros £300,000 rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mai 2013 ar atchwanegiadau bwyd (bwyd llwy). Y gost gyfartalog oedd £48.88 yr eitem, sef yr uchaf yng Nghymru. Gallai'r Bwrdd Iechyd ryddhau arbedion o dros £261,000 drwy ostwng cost yr eitem i lefel cost yr eitem y bwrdd iechyd sy'n gwario lleiaf. Er bod y tîm Rheoli Meddyginiaethau wedi pennu targed arbedion ar gyfer lleihau'r defnydd o fwyd llwy o bump y cant, gallai'r Bwrdd Iechyd greu gwelliannau sylweddol o ran ansawdd a gwariant ar bresgripsiynu atchwanegiadau bwyd drwy ddatblygu rhaglen waith gynhwysfawr yn y maes hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi targedu toriad o 20 y cant ar gynhyrchion heb glwten a chynhyrchion moeth heb glwten er mwyn sicrhau gostyngiad o 80 y cant ac arbedion disgwylidig o £37,000, sy'n arfer da.

## Presgripsiynu cynhyrchion rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd ac anymataliaeth

### Ymarfer disgwylledig

#### Cynhyrchion anymataliaeth a stoma

Gwelodd archwiliad cenedlaethol o anymataliaeth yn 2010 fod mwyafrif y gwasanaethau ymataliaeth wedi'u hintegreiddio'n wael ar draws lleoliadau gofal aciwt, meddygol, llawfeddygol, sylfaenol, cartrefi gofal a chymunedol, gan arwain at ofal anghyson i gleifion a gofalwyr. Mewn gofal sylfaenol, meddyg teulu neu nyrs sy'n rhagnodi sy'n presgripsiynu cyfarpar anymataliaeth a stoma i gleifion fel arfer. Yna gweinyddir y presgripsiwn gan un o'r canlynol: contractwr sy'n gweinyddu cyfarpar, contractwr fferyllol neu feddyg sy'n gweinyddu.

Gallai canolbwyntio mwy ar wella ansawdd a lefel presgripsiynu cynhyrchion anymataliaeth a stoma greu arbedion.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Mae **Atodiad 3: Arddangosyn 7** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario dros £1.7 miliwn ar gyfarpar stoma a thua £280,000 ar gyfarpar anymataliaeth. Mae lefel presgripsiynu y 1000 UP ar gyfer y ddau fath o gynnyrch yn awgrymu y gellid dod o hyd i rai gwelliannau o ran ansawdd ac arbedion drwy dargedu'r maes hwn.

Ar hyn o bryd, nid yw'r tîm rheoli meddyginiaethau yn cynnal rhaglen waith yn y maes a byddai'r Bwrdd Iechyd yn elwa o ganolbwyntio mwy ar wella ansawdd a lefelau presgripsiynu.

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2011-12

### Ymarfer disgwylledig

#### Atalydd ACE

Meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd i drin pwysedd gwaed uchel yw atalyddion ACE (atalyddion ensym trawsnewid angiotensin). Mae Canllawiau Clinigol NICE (CG34) yn datgan bod budd atalyddion ACE a gwrthweithyddion derbyn angiotensin-II yn cydberthyn yn agos ond oherwydd gwahaniaethau yn y gost, dylid cychwyn gydag atalyddion ACE.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (79.46 y cant) yn greu arbedion posibl.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Cwm Taf yw'r bwrdd iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru gyda chyfradd bresgripsiynu o 78.15 y cant (**Atodiad 3: Arddangosyn 8**).

Mae'r perfformiad hwn yn dal yn is na'r chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau. Gallai cymharu â'r perfformiad hwn greu arbedion posibl o £15,000 (**Atodiad 3: Arddangosyn 9**).

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2011-12

### Ymarfer disgwyliedig

#### Atalyddion Pwmp Proton (PPIs)

Defnyddir PPIs i drin clefyd gwrthlif sefnigol, dyspepsia neu wlserau gastrig: er bod pryderon yn cael eu mynegi bellach ynglŷn â diogelwch presgripsiynu PPIs yn hirdymor, dywed argymhellion NICE y dylid defnyddio'r PPI rhataf.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (96.61 y cant) yn creu arbedion posibl.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Cwm Taf yw'r bwrdd iechyd sy'n perfformio orau (96.59 per cent) ac mae ychydig o dan y chwarterl sy'n perfformio orau o blith y practisau meddygon teulu ([Atodiad 3: Arddangosyn 10](#)). Mae hyn yn awgrymu bod presgripsiynu o ansawdd da yn y maes hwn heb fawr o gyfle i arbed arian (£1,000) ([Atodiad 3: Arddangosyn 11](#)).

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Cyffuriau gwrthlidiol di-steroidaidd ibuprofen a naproxen (NSAIDs)

Meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio'n eang i liniaru poen, lleihau llid a thwymyn yw NSAIDs. Ceir tystiolaeth helaeth dros gyfyngu ar bresgripsiynu NSAIDs yn enwedig ar gyfer pobl hŷn. Os oes rhaid presgripsiynu NSAIDs, er mwyn lleihau risg, caiff ibuprofen a naproxen eu derbyn fel y dewis llinell gyntaf.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (79.63 y cant) yn creu arbedion posibl.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru ar 76.83 y cant. ([Atodiad 3: Arddangosyn 12](#)) ac mae wedi bod yn targedu'r maes hwn. Er hynny, gellid creu enillion o ran ansawdd ac arbedion posibl o £13,000 o hyd pe baent yn cyrraedd cyfradd bresgripsiynu'r chwarterl gorau o feddygon teulu ([Atodiad 3: Arddangosyn 13](#)).

#### Statins cost isel

Mae canllawiau cyfredol NICE yn hyrwyddo'r defnydd o statins cost isel fel triniaeth llinell gyntaf i'r rhan fwyaf o bobl â chlefyd fasnwlaid atheroslerotig sefydledig, pobl â diabetes ac eraill â risg uchel o glefyd cardiofasgwlaidd. Gwelwyd mai dyma'r ymyrraeth fwyaf cost-effeithiol.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (96.26 y cant) yn creu arbedion posibl.

Cyfradd bresgripsiynu statins cost isel y Bwrdd Iechyd yw 93.73 y cant sy'n is na'r targed o 95 y cant ([Atodiad 3: Arddangosyn 14](#)). Gellid creu arbedion posibl o £293,000 pe bai'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd yr un lefelau â'r chwarterl uchaf o feddygon teulu ([Atodiad 3: Arddangosyn 15](#)).

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi targedu newidiadau i bresgripsiynu rosuvastatin er mwyn creu 15 y cant o arbedion yn 2012-13 ond mae'r perfformiad cyfredol yn awgrymu y gellid gwneud mwy yn y maes hwn.

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Inswlin hirdymor ar gyfer diabetes math 2

Mae canllawiau NICE ar reoli diabetes math 2 yn argymhell mai inswlin isoffan dynol (NPH) yw'r dewis a ffeirir pan fo angen therapi inswlin. Mae analogau inswlin hirdymor yn fuddiol i rai cleifion, a gellid ei ystyried ar gyfer categorïau penodol o bobl. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o bobl â diabetes math 2, nid yw analogau inswlin hirdymor yn cynnig unrhyw fantais sylweddol dros inswlin NPH dynol, ac maent yn llawer drutach.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (87.88 y cant) yn creu arbedion posibl.

#### Opioidau i liniaru poen

Mae rhan hirsefydlog gan opioidau i'w chwarae yn rheoli poen aciwt yn dilyn trawma (yn cynnwys llawdriniaeth), a rheoli poen sy'n gysylltiedig â salwch angheuol. Morffin yw'r opioid poenliniarol mwyaf gwerthfawr o hyd i ymladd poen difrifol.

Byddai cymharu â pherfformiad y chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau (55.93 y cant) yn creu arbedion posibl.

#### Presgripsiynu gwrthfactorol – y naw eitem uchaf

Mae canllawiau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yn nodi'r protocol triniaethau a'r gwrthfotigau mwyaf priodol ar gyfer heintiau cyffredin a welir mewn gofal sylfaenol. Mae'r naw meddyginiaeth gwrthfactorol uchaf yn darparu digon o ddiogelwch i drin heintiau'r llwybr anadlol uchaf ac isaf, heintiau'r llwybr wrinol a heintiau cyffredin y croen.

Mae'r defnydd o wrthfotigau generig syml ac osgoi gwrthfotigau sbectrwm eang yn lleihau risg bacteria ymwrthol yn awr ac i'r dyfodol.

Y targed yw 83.58 y cant ar gyfer y naw meddyginiaeth gwrthfactorol uchaf fel canran o eitemau gwrthfactorol.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yn y maes hwn (82.51 y cant) a'r unig fwrdd iechyd i gyrraedd a gwella ar y targed o 89.27 y cant (**Atodiad 3: Arddangosion 16 a 17**). O ganlyniad, ychydig o le sydd yna i wella ansawdd a phresgripsiynu darbodus yn y maes hwn.

Y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio waethaf yng Nghymru ar y mesur hwn ar hyn o bryd (33.43 y cant). Pe bai'r Bwrdd Iechyd yn gallu gwella ei berfformiad i adlewyrchu perfformiad y chwarterl uchaf o feddygon teulu, gallai greu arbedion o £330,000 (**Atodiad 3: Arddangosion 18 a 19**).

Mae cyfradd bresgripsiynu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y naw eitem gwrthfactorol uchaf yn is na'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, sy'n awgrymu y gellid gwneud gwelliannau o ran ansawdd yn y maes (**Atodiad 3: Arddangosyn 22**). Ar 79.36 y cant, mae'n is na'r targed.

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Presgripsiynau gwrthfacterol - y gyfradd bresgripsiynu gyffredinol

Mae'r Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yng Nghymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd darbodus o feddyginiaethau gwrthficrobaidd.

Gallai datblygu rhaglen strwythuredig i ostwng lefelau presgripsiynu gwrthfotig gan feddygon teulu leihau'r posibilrwydd y gallai ymwrthedd gwrthfotig ddatblygu'n lleol.

Y targed yw 329 eitem fesul 1,000 STAR-UP<sup>7</sup>.

#### Gwrthfotigau sbectrwm eang

Mae cysylltiad rhwng y defnydd o quinolone ac achosion o ddolur rhydd sy'n gysylltiedig â C. Difficile, felly dylid cyfyngu'r defnydd i ddynodiadau penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd microbaidd posibl. Amcangyfrifwyd fod cost gyfartalog achos o C.difficile yn £4,007 sy'n dangos bod canlyniadau i'r system gyfan a allai fod yn hirdymor o beidio â rheoli presgripsiynu quinolone.

Gwrthfotigau sbectrwm eang yw cephalosporins sy'n cael eu defnyddio ar gyfer trin septisemia, niwmonia, llid yr ymennydd, heintiau pibell y bustl, peritonitis a heintiau'r llwybr wrinol.

Dylid cyfyngu'r defnydd o wrthfotigau sbectrwm eang i ddynodiadau penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Gosodwyd targedau fel canran o'r holl feddyginiaethau gwrthfacterol sy'n cael eu presgripsiynu:

- cephalosporins 3.14 y cant;
- co-amoxiclav 2.99 y cant;
- quinolones 1.42 y cant.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Mae'r gyfradd bresgripsiynu gyffredinol ar gyfer eitemau gwrthfacterol yn y Bwrdd Iechyd yn uchel ar 344.98 eitem fesul 1,000 STAR-UP ([Atodiad 3: Arddangosyn 23](#)).

Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu fod lle i leihau'r defnydd o feddyginiaethau gwrthfacterol.

Mae presgripsiynwyr gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd yn defnyddio lefelau uchel o'r gwrthfotigau sbectrwm eang. [Mae Atodiad 3: Arddangosion 22 i 24](#) yn dangos bod lefelau presgripsiynu co-amixiclav yn arbennig o uchel.

Mae dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2013-14 yn argymhell lleihau'r defnydd o'r tri gwrthfotig hwn. Mae perfformiad presgripsiynu'n awgrymu fod lle sylweddol i wella ansawdd presgripsiynu yn y maes er bod y Bwrdd Iechyd eisoes yn darparu data presgripsiynu ar gyfer y tri gwrthfotig hwn i bractisau.

Mynegodd y Bwrdd Iechyd bryderon nad oes ganddo ddigon o adnoddau yn eu lle i dargedu'r mater. Roedd ganddynt fferylllydd gwrthficrobaidd yn ei swydd am 0.2 cyfwerth ag amser llawn yn unig ac mae'r fferylllydd cyfredol wedi bod ar absenoldeb mamolaeth ers dwy flynedd a neb yn gwneud y swydd yn ei lle.

Mae dadansoddiadau lleol diweddar wedi dangos bod meddygon teulu â meddygfeydd mynediad agored yn fwy tebygol o bresgripsiynu meddyginiaethau gwrthficrobaidd ac felly mae'r tîm rheoli meddyginiaethau wedi targedu cymorth ychwanegol ar gyfer y meddygon teulu hyn.

Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau wedi gofyn am gymorth ychwanegol i fynd ar ôl y maes gwaith pwysig hwn. Mae'r swyddogaeth hon yn allweddol i helpu'r Bwrdd Iechyd gyrraedd y targedau hyn.

<sup>7</sup> Unedau Presgripsiynu Grŵp Therapiwtig Penodol Cysylltiedig ag Oedran-Rhyw.

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwylidig

#### Dosulepin

Gwrth-iselydd yw dosulepin, sydd wedi arfer cael ei ddefnyddio pan fo angen cyffur gwrth-bryder neu dawelydd; fodd bynnag, ffin denau o ddiogelwch a geir rhwng y dos therapiwtig uchaf a dos a allai fod yn anghewol. Y canllaw cyfredol gan NICE yw peidio â dechrau, na newid i bresgripsiynu dosulepin am fod tystiolaeth i gefnogi'r lefelau y gellir eu goddef ohono o gymharu â gwrth-iselyddion eraill yn cael eu gorbwysio gan y risg cynyddol i'r galon a'i wenwyndra o gymryd gorddos ohono.

Dylai canolbwyntio mwy ar ostwng lefelau presgripsiynu dosulepin wella ansawdd gofal a lleihau'r risg i gleifion.

Y targed yw 52.15 dos dyddiol diffiniedig (DDD) fesul 1,000 UP.

#### Hypnotigion ac ancsiolytigau

Mynegydd pryderon ynglŷn â'r lefel uchel o bresgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau yng Nghymru. Cydnabyddir y gallai peth o'r presgripsiynu fod yn amhriodol, gan gyfrannu at broblem dibyniaeth a chuddio iselder. Hefyd, ceir canlyniadau i'r system gyfan o gostau ychwanegol darparu gwasanaethau dibyniaeth i reoli cleifion sy'n gaeth i gyffuriau.

Dylai canolbwyntio ar leihau lefelau presgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau wella ansawdd gofal a lleihau'r risg i gleifion.

Y targed yw 1,402 DDD fesul 1,000 UP.

### Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Mae lefelau presgripsiynu dosulepin y Bwrdd Iechyd yn uchel, ar 80.48 DDD fesul 1,000 UP ([Atodiad 3: Arddangosyn 27](#)).

Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod mwy o waith i'w wneud eto, gwelodd ostyngiad o 45.9 y cant yn lefelau presgripsiynu dosulepin dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae hyn yn uwch na'r gostyngiad cyfartalog drwy Gymru.

Mae [Atodiad 3: Arddangosyn 29](#) yn dangos bod cyfradd gymharol uchel o bresgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau yn y Bwrdd Iechyd, ar 2,077.20 DDD fesul 1,000 UP ([Atodiad 3: Arddangosyn 30](#)).

Dyma faes y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod yn broblem ac mae wedi gosod targed i leihau presgripsiynu hypnotigion o 10 y cant. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod rhagor o waith i'w wneud o hyd, mae wedi gweld gostyngiad o 18.3 y cant yn yr arfer o bresgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae hyn yn uwch na'r gostyngiad cyfartalog drwy Gymru.

Mae mynd i'r afael â'r maes hwn yn galw am weithredu cydgysylltiedig â thimau iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd i ddarparu dewisiadau amgen yn lle meddyginiaethau at orbryder ac iselder. Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Presgripsiynwyr Iechyd Meddwl ac mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol yn cynnig ffordd i mewn at wasanaethau cymorth yn cynnwys presgripsiynu llyfrau hunanofal ac mae prosiect presgripsiynu cymdeithasol ar y gweill.

Gallai targedu'r maes hwn ymhellach wella'r cymorth i gleifion sy'n dioddef o orbryder ac iselder a chyfyngu ar bresgripsiynu hypnotigion ac ancsiolytigau.



## Monitro Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau

### Ymarfer disgwyliedig

Caiff Cynllun y Cerdyn Melyn ei drefnu gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion a Gofal Iechyd (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol, a chaiff ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cyhoedd am sgil-ffeithiau a amheuir neu adweithiau niweidiol i feddyginiaeth. Mae'r cynllun hwn yn allweddol i helpu'r MHRA fonitro diogelwch y meddyginiaethau a'r brechlynnau sydd ar y farchnad.

Amlygodd gwaith Comisiwn Archwilio 1998 lefelau isel o gofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau yng Nghymru ac nid yw'r tueddiad wedi gwella.

Mae'r AWMSG wedi cytuno y byddai trefn gofnodi'r Cerdyn Melyn yn cael ei defnyddio fel cymharydd lleol ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae Canolfan Cerdyn Melyn Cymru wedi datblygu rhaglen addysg sydd ar gael i feddygon teulu a byrddau iechyd.

Nodwyd arfer da ar gyfer atal a chofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau yn [Atodiad 4: Arddangosyn 30](#).

### Ar waith?

✓/x

### Gwybodaeth bellach

Lefel isel o gofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau a geir yn y Bwrdd Iechyd ac mae'r perfformiad hwn yn parhau i waethygu ([Atodiad 4: Arddangosion 27 i 29](#)).

Mae meddygon teulu yn bryderus fod y system yn cymryd gormod o amser i'w chwblhau am eu bod yn gorfod mewnbynnu'r holl feddyginiaethau y mae'r claf yn eu cymryd. Gan fod pob meddyg teulu yng Nghwm Taf yn defnyddio emisweb neu Vision, mae fferyllwyr yn archwilio ffyrdd o wella'r broses o gofnodi adweithiau niweidiol i gyffuriau yn electronig drwy'r meddalwedd presennol.

Mae tîm Rheoli Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd yn cynnal digwyddiadau hyfforddi i hyfforddeion meddygon teulu a nyrsys i wella'r broses o gofnodi ac mae'n cynnwys hyfforddiant ar adweithiau niweidiol i gyffuriau yn yr ymweliad blynyddol â meddygon teulu.

Ailffurfiwyd Grŵp Llywio Diogelwch Meddyginiaethau yn ddiweddar yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n adrodd yn ôl i'r PRhMG. Mae'n adolygu digwyddiadau'n ymwneud â meddyginiaethau a gwersi a ddysgwyd yn ogystal â chyfeirio a monitro mentrau diogelwch meddyginiaethau drwy grwpiau gorchwyl a gorffen ar draws y Bwrdd Iechyd. Cytunodd y Grŵp Llywio Diogelwch Meddyginiaethau i gynhyrchu cylchlythyr i dynnu sylw at negeseuon a rhybuddion allweddol i fynd ar SharePoint, ynghyd â chopïau papur i'w rhannu ar lefel y ward. Mae'r grŵp yn adolygu Strategaeth Diogelwch Meddyginiaeth y Bwrdd Iechyd.

## Gwastraffu cyffuriau

### Ymarfer disgwylledig

### Ar waith?

### Gwybodaeth bellach

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif fod cost cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu yn £50 miliwn bob blwyddyn.

Gallai'r Bwrdd lechyd leihau hyd at 50 y cant ar wastraff.

✓/x

Gan ragdybied bod y lefelau'n gyson ledled Cymru, amcangyfrifwn fod cost cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu yn £5.2 miliwn.

Pe bai'r Bwrdd lechyd yn gallu gostwng hyn 50 y cant, gellid arbed hyd at £2.6 miliwn (**Atodiad 5: Arddangosyn 31**).

Mae gan y Bwrdd lechyd wybodaeth am lefelau gwastraff meddyginiaethau, er enghraifft maent wedi cynnal archwiliadau.

✓

Cynhaliodd un o'r cwmnïau fferyllol archwiliad yn ddiweddar o bwysau meddyginiaethau a ddychwelwyd i'w fferyllfeydd mewn wythnos i'w difa. O'r archwiliad hwn, amcangyfrifodd y Bwrdd lechyd fod y broblem wastraff yn werth £5.6 miliwn. Roedd cynnal yr archwiliad hwn yn arfer da sy'n dangos y gellid arbed swm sylweddol ac sy'n tanlinellu pwysigrwydd targedu'r maes hwn.

Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i leihau gwastraff, er enghraifft drwy greu cymhelliant i reoli meddyginiaethau ar ddechrau'r broses o'u gweinyddu.

✓

Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun lleihau gwastraff buddsoddi i arbed ar waith fel gwasanaeth ychwanegol gyda fferyllfeydd cymunedol. Nod y cynllun yw lleihau gwastraff presgripsiynu a gorarchebu meddyginiaethau amlroddadwy. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio fferyllwyr cymunedol a'u staff cymorth i ganfod yn uniongyrchol gan gleifion a oes angen pob un o'r eitemau a gyflwynir i'w gweinyddu ai peidio. Rhoddir ffi i fferyllfeydd cymunedol am beidio â gweinyddu meddyginiaethau amlroddadwy. Targed y Bwrdd lechyd yw cael 80 y cant o fferyllfeydd i ymuno â'r cynllun erbyn diwedd 2012-13. Comisiynodd y Bwrdd lechyd y gwasanaeth gyda 45 y cant o'r fferyllfeydd gydag arbedion posibl o £37,000 yn 2011-12 ac mae'n anelu at £100,000 yn 2012-13. Dyma ffordd dda o leihau'r swm o feddyginiaethau sy'n cael eu gweinyddu'n ddiangen ac mae wedi cael derbyniad da fel y dangoswyd gan y nifer cynyddol sy'n ymuno â'r cynllun.

Sefydlwyd cynllun adolygu defnydd o feddyginiaethau mewn gofal cartref i nodi presgripsiynu gormodol neu ddiangen a phentyrru cyflenwadau gan gleifion. Bydd gofalwyr yn dod â holl feddyginiaethau'r claf i mewn i'w hadolygu.

## Gwastraffu cyffuriau

### Ymarfer disgwyliedig

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i leihau gwastraff, er enghraifft drwy greu cymhelliant i reoli meddyginiaethau ar ddechrau'r broses o'u gweinyddu.

### Ar waith?



### Gwybodaeth bellach

Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i ddatblygu ymgyrch farchnata gydag iechyd cyhoeddus a Chymdeithas Dai leol i roi negeseuon ar eu faniau ac ar slipiau rhent tenantiaid a allai elwa o adolygiadau a chyngor ar ddefnyddio meddyginiaethau. Dyma syniad arloesol sy'n gweithio y tu hwnt i'r ffiniau iechyd arferol i gyfleu negeseuon i gleifion anodd eu cyrraedd ynglŷn â'u meddyginiaeth.

Er mai un o'r prif resymau dros ddychwelyd meddyginiaethau yw marwolaeth y claf, mae gwaith diweddar wedi nodi'r prosesau a'r systemau isod sy'n achosi i feddyginiaethau gael eu gwastraffu:

- trefn gymhleth yn achosi i gleifion fethu â dilyn neu gwblhau'r driniaeth;
- newid triniaethau a chyfnwid diangen rhwng triniaethau;
- presgripsiynau cyfnod hir – cyfyngu i 28 diwrnod yw'r drefn fwyaf cost-effeithiol, gan gyfyngu ar y meddyginiaethau a ddychwelir i fferyllfeydd;
- presgripsiynu amlroddadwy a phrosesau gweinyddu yn arwain at orgyflenwi;
- diffyg cymorth priodol gyda defnyddio meddyginiaethau yn y cartref;
- ffordd o fyw a digwyddiadau'n amharu ar arferion cymryd meddyginiaeth.

Cefnogi meddygon teulu i wella trefniadau presgripsiynu amlroddadwy.



Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhan o ymgyrch gwastraff genedlaethol yn 2005 sy'n dal i fynd yn ei blaen. Mae'r taflenni o'r cynllun hwn wedi'u hailargraffu ond bellach, mae angen eu diweddarau a byddai'r prif fferylllydd yn hoffi gweld ymgyrch farchnata genedlaethol newydd yn pwysleisio materion ansawdd.

Hefyd, gwnaeth y Bwrdd Iechyd waith ymchwil ym Merthyr Tudful yn gofyn i gleifion beth fyddent yn ei wneud â meddyginiaethau nad oeddynt yn eu cymryd. Dim ond eu hanner fyddai'n eu dychwelyd i'r fferyllfa. Byddai eraill yn eu fflysio i lawr y toiled neu'n eu taflu. Mae'r ymchwil yn ddefnyddiol ar gyfer deall pa wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion wrth benderfynu beth i wneud â meddyginiaethau diangen a gellir ei ddefnyddio fel rhan o ymgyrch newydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun cymhelliant presgripsiynu amlroddadwy i feddygon teulu ochr yn ochr â'r cynllun gyda fferyllfeydd gymunedol. Bydd gofyn i bractisau ymyrryd pan fo cleifion yn gofyn am gyflenwadau pellach o feddyginiaeth amlroddadwy reolaidd i bennu a yw'r claf angen yr holl feddyginiaeth y gofynnir amdani. Bydd practisau'n derbyn 35 y cant o gostau tariff cyffuriau cynnyrch na chaiff ei bresgripsiynu yn sgîl yr ymyriadau.

Mae ymladd gwastraff yn rhan o'r adolygiad blynyddol ym mhob practis meddygon teulu sy'n fforwm priodol ar gyfer codi'r mater hwn. Mae'r arweinydd ar wastraff wedi datblygu cyflwyniad safonol i'w ddefnyddio gyda meddygon teulu i hybu'r negeseuon.

# Atodiad 1

## Crynodeb o arbedion posibl

Mae'r atodiad hwn yn rhoi gwybodaeth bellach am berfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd yn erbyn ystod o ddangosyddion presgripsiynu, a'r arbedion posibl a nodwyd o'r cymariaethau hyn. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sail dros y cyfrifiadau o arbedion a ddefnyddiwyd.

| Dangosydd  | Sail dros y cyfrifiadau o arbedion a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn   |
|--|---|
| Presgripsiynu generig  | <p>Mae'r chwarter uchaf o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn sicrhau lefelau o 85 y cant o bresgripsiynu generig. Mae rhai cyffuriau brand (fel Ventolin a Zapain) sy'n cael eu presgripsiynu'n helaeth yn rhatach ar hyn o bryd na mathau generig cyfatebol. Yn dibynnu ar yr asesiad o weithgareddau, gallai practisau meddygon teulu fod â mwy neu lai o botensial i greu arbedion yn y maes hwn.</p> <p>I leihau effaith amrywiadau, datblygwyd basged o gyffuriau sy'n cael eu presgripsiynu'n rheolaidd i nodi arbedion y gellid eu creu drwy wella presgripsiynu generig.</p> <p>Cyfrifwyd arbedion ar gyfer pob cyffur mewn basged o gyffuriau patent drwy gymryd y gwariant gwirioneddol ar gyffuriau patent (mis Mawrth 2013 i fis Mai 2013) llai costau'r dewis amgen generig (yn seiliedig ar brisiau 21 Awst 2013 yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain), lluosir arbedion â phedwar i gael yr arbedion posibl dros 12 mis, wedi'i dalgrynnu i'r 1,000 agosaf.</p> |
| Cyffuriau a nodwyd fel rhai llai addas i'w presgripsiynu ac eithrio glwcosamin | <p>Lluoswyd y gwariant gwirioneddol (mis Mawrth 2013 i fis Mai 2013) â phedwar i gael gwariant dros 12 mis. Cyfrifwyd yr arbedion posibl drwy leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, i gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gallai fod ei hangen i newid arferion presgripsiynwyr unigol.</p>  |
| Basged gyffuriau nad yw NICE yn eu hargymell                                   | <p>Lluoswyd y gwariant gwirioneddol (mis Mawrth 2013 i fis Mai 2013) â phedwar i gael gwariant dros 12 mis. Cyfrifwyd yr arbedion posibl drwy leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, i gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gallai fod ei hangen i newid arferion presgripsiynwyr unigol.</p> <p>Roedd y fasged hon yn cynnwys Aliskiren, Cilostazol, Roflumilast, Linagliptin, Paricalcitol, a Hyaluronic Acid (Sodium). Cafodd Linagliptin ei gymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Mai 2013, felly bydd yr arbedion hyn yn newid yn y dyfodol.</p>  |
| Presgripsiynu gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd                              | <p>Cyfrifwyd yr arbedion drwy ostwng y ganran o bresgripsiynau gorchuddion gwrthficrobaidd a ddefnyddir mewn gofal sylfaenol i lefel y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.</p>   |

| Dangosydd                               | Sail dros y cyfrifiadau o arbedion a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn   |
|---|---|
| Atchwanegiadau bwyd (bwyd llwy)         | Cyfrifwyd yr arbedion drwy ostwng y gwariant cyfredol i lefel cost gyfartalog yr eitem y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau. |
| Dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol | Cyfrifwyd yr arbedion ar y sail bod byrddau iechyd yn perfformio yn chwarter uchaf y practisau meddygon teulu.              |

### Crynodeb o arbedion posibl

| Maes   | Arbedion          |
|--|-------------------|
| Gwella presgripsiynu generig                   | £196,000          |
| Cyffuriau sy'n llai addas i'w presgripsiynu    | £80,000           |
| Basged gyffuriau nad yw NICE yn eu hargymell   | £16,000           |
| <b>Rheoli clwyfau ac atchwanegiadau bwyd</b>   |                   |
| Gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd            | £50,000           |
| Atchwanegiadau bwyd                            | £261,000          |
| <b>Dangosyddion presgripsiynu cenedlaethol</b> |                   |
| Gwella presgripsiynu atalyddion ACE            | £15,000           |
| PPIs   | £1,000            |
| NSAIDs   | £13,000           |
| Statins cost isel                              | £293,000          |
| Inswlin hirdymor                               | £0                |
| Presgripsiynu opioidau                         | £330,000          |
| <b>Cyfanswm</b>                                | <b>£1,255,000</b> |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata CASPA.Net*

## Atodiad 2

---

### Dadansoddiad cymharol o bresgripsiynu adrannau'r Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn ôl bwrdd iechyd

Cyfanswm gwariant yn ôl adrannau'r Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain fesul 1,000 o Unedau Presgripsiynu<sup>8</sup> – Mehefin 2012 i Mai 2013

|   | Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Prifysgol Betsi Cadwaladr | Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Addysgu Powys |
|---|----------------------------------|---------------|---------------------------|----------------------------|---------|-----------|---------------|
| System Gastroberfeddol                                | £6,239                           | £6,712        | £6,534                    | £6,211                     | £6,517  | £6,137    | £6,405        |
| System Cardiofasgwlaidd                               | £14,683                          | £14,851       | £13,940                   | £12,603                    | £15,876 | £15,641   | £14,674       |
| System Anadlol  | £20,428                          | £21,314       | £18,857                   | £16,601                    | £25,799 | £19,268   | £16,820       |
| System Nerfol Ganolog                                 | £26,476                          | £28,293       | £25,539                   | £26,420                    | £29,648 | £26,171   | £25,394       |
| Heintiau  | £3,269                           | £3,261        | £3,147                    | £3,500                     | £2,945  | £3,213    | £2,887        |
| System Endocrin                                       | £16,448                          | £17,201       | £15,029                   | £15,803                    | £17,032 | £16,564   | £14,811       |
| Anhwyldeuau Obstetrig, Gynaecolegol a'r Llwybr Wrinol | £5,297                           | £5,561        | £5,406                    | £6,644                     | £6,371  | £5,379    | £5,354        |
| Clefyd Malaen a Gwrthimiwnedd                         | £3,414                           | £2,798        | £3,361                    | £2,809                     | £3,202  | £4,451    | £4,055        |
